WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Asesiad Strwythuredig 2018 – **Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro**


Blwyddyn archwilio: 2018

Dyddiad cyhoeddi: Ionawr 2019

Cyfeirnod y ddogfen: 1025A2019-20

Lluniwyd y ddogfen hon yn rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Tom Haslam, Urvisha Perez, Mark Jones, John Llewellyn ac Andrew Strong.

# Cynnwys

Mae trefniadau cynllunio strategol y Bwrdd Iechyd yn gadarn ar y cyfan, ac er ei fod wedi gwneud rhywfaint o gynnydd, mae angen gwelliannau sylweddol o hyd o ran trefniadau llywodraethu, rheoli risg a monitro perfformiad.


Ynglŷn â'r adroddiad hwn 4

Y Cefndir 4

Y Prif Gasgliadau 5

Llywodraethu:

Mae rhai o'r trefniadau llywodraethu wedi gwella ond mae gennym bryderon ynghylch rheoli risg a phrosesau llywodraethu eraill sylfaenol 5

Cynllunio Strategol:

Mae gweledigaeth y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2015 yn parhau i fod yn berthnasol, ac mae trefniadau cynllunio strategol yn gadarn ar y cyfan, ond mae angen trefniadau gwell i fonitro perfformiad 13

Trefniadau ehangach sy'n cefnogi defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o adnoddau:

Mae amrywiaeth eang o heriau o flaen y Bwrdd Iechyd wrth sicrhau defnydd effeithiol o'i adnoddau. Gan amlaf, mae'n cydnabod pa agweddau y mae angen iddo eu gwella, ac yn ddiweddar lluniodd raglen drawsnewid er mwyn helpu i wella perfformiad ac effeithlonrwydd. 15

Argymhellion 27

Atodiadau

Atodiad 1 - cynnydd wrth weithredu argymhellion blaenorol 29

Atodiad 2 - Ymateb y Bwrdd Iechyd i argymhellion eleni 34

# Ynglŷn â'r adroddiad hwn

1 Mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau o waith asesiad strwythuredig yr Archwilydd Cyffredinol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (y Bwrdd Iechyd) yn 2018. Cyflawnwyd y gwaith hwn gennym er mwyn cynorthwyo i fodloni gofyniad statudol yr Archwilydd Cyffredinol, o dan adran 61 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2014, sef bod yn fodlon bod cyrff y GIG wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau.

2 Roedd ein gwaith yn 2018 yn cynnwys cyfweliadau â swyddogion ac aelodau annibynnol, arsylwi cyfarfodydd y bwrdd, pwyllgorau a rheolwyr ac adolygu dogfennau, perfformiad a data ariannol perthnasol. Eleni cynhaliom arolwg aelodau Bwrdd ar draws holl fyrddau iechyd ac ymddiriedolaethau'r GIG. Roedd ymateb aelodau bwrdd y Bwrdd Iechyd yn wael. Dim ond saith a ymatebodd o'r 25 o aelodau bwrdd (28%) a gafodd wahoddiad i gymryd rhan. Nid ydym felly wedi defnyddio'r canfyddiadau yn yr adroddiad hwn.

3 Mae gwaith asesiad strwythuredig eleni yn dilyn themâu tebyg i waith y blynyddoedd cynt. Rydym wedi ehangu'r cwmpas i gynnwys trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer caffael, rheoli asedau a gwella effeithlonrwydd a chynhyrchiant. Rydym wedi rhannu ein canfyddiadau o dan dair thema - trefniadau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd, ei ymagwedd at gynllunio'n strategol a'r trefniadau ehangach sy'n cefnogi defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o adnoddau. I gloi, nodir ein hargymhellion.

4 Yn Atodiad 1 ceir crynodeb o gynnydd y Bwrdd Iechyd wrth ymdrin ag argymhellion o'r asesiad strwythuredig blaenorol. Yn Atodiad 2 nodir ymateb y Bwrdd Iechyd i'r argymhellion sy'n deillio o'n gwaith yn 2018.

# Y Cefndir

5 O dan Fframwaith Uwchgyfeirio ac Ymyrraeth GIG Cymru, ymyrraeth dargededig yw statws y Bwrdd Iechyd. Mae hyn yn adlewyrchu'r heriau'n gysylltiedig â sefyllfa ariannol y sefydliad a'r ffaith nad yw wedi gallu creu Cynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI) ariannol gytbwys y gellir ei gymeradwyo.

6 Nid yw'r Bwrdd Iechyd ychwaith yn llwyddo i gyrraedd rhai o dargedau Llywodraeth Cymru ar gyfer amseroedd aros, fel amser atgyfeirio i driniaeth, arosiadau mewn adrannau damweiniau ac achosion brys ac amser disgwyl triniaeth ar ôl diagnosis o ganser. Mae'r Bwrdd Iechyd yn rhoi'r flaenoriaeth i weithredu mewn meysydd lle cafwyd perfformiad gwael, ac wedi sicrhau rhai gwelliannau.

7 Adroddodd y Bwrdd Iechyd ddiffyg ariannol o £26.9 miliwn ar ddiwedd 2017-18. Roedd hyn oddi mewn i derfynau cyfanswm diffyg dan reolaeth o £30.9 miliwn y cytunwyd arno â Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae'n cyfrannu at y diffyg cronnus sy'n cynyddu o'r naill flwyddyn i'r nesaf, a oedd yn £56 miliwn ar ddiwedd mis Mawrth 2018. Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio'n unol â chynllun gweithredol blwyddyn o hyd - y Cynllun Gweithredu Blynyddol (CGB) gan na chymeradwywyd CTCI 2018-20 gan Lywodraeth Cymru.

8 Mae'r Bwrdd wedi treulio'r 12 mis diwethaf yn cyfnerthu newidiadau blaenorol i weithwyr allweddol ac aelodaeth y Bwrdd ac yn adeiladu ar y rhain. Y llynedd, penodwyd amryw o aelodau annibynnol (AAau) newydd i'r Bwrdd, cafwyd Prif Weithredwr newydd a Chyfarwyddwr Gweithredol newydd ar gyfer y Gweithlu a Datblygu Trefniadol Ym mis Gorffennaf 2018, ymunodd Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol newydd â'r sefydliad.

9 Mae'r strwythurau trefniadol yr un peth â'r llynedd i raddau helaeth, ar wahân i gynigion i gynigion i gyfuno'r Bwrdd Clinigol Deintyddol â'r Bwrdd Clinigol Llawfeddygol. Mae rhai cyfrifoldebau gweithredol wedi newid.

Er enghraifft, ers mis Hydref 2018, mae'r cyn Gyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus bellach yn Gyfarwyddwr Gwybodeg, Comisiynu, Arloesi a Thrawsnewid.

10 Yn ein gwaith ar asesiad strwythuredig 2017, gwelsom fod rhaglen arbedion y Bwrdd Iechyd yn lleihau'r diffyg ariannol, a bod trefniadau gweithredol i raddau helaeth yn effeithiol. Gwnaethom hefyd amlygu gwendidau yng ngoruchwyliaeth a sicrwydd y Bwrdd, ac yn y gefnogaeth i wasanaethau ym maes gwybodeg.

11 Derbyniodd y Bwrdd Iechyd adroddiad asesiad strwythuredig 2017 ym mis Chwefror 2018. Dyma'r unig gorff o fewn y GIG i beidio â chynnig ymateb y rheolwyr cyn inni ddechrau ein gwaith ar asesiad strwythuredig 2018. O'r diwedd, derbyniodd y Pwyllgor Archwilio ymateb llawn y rheolwyr ar 25 Medi 2018, gan gyflwyno diweddariad chwe mis na ddangosai ryw lawer o gynnydd yn erbyn ein hargymhellion.

# Y Prif Gasgliadau

## Crynodeb

12 Ein prif gasgliad yw bod **trefniadau cynllunio strategol y Bwrdd Iechyd yn gadarn ar y cyfan, ac er ei fod wedi gwneud rhywfaint o gynnydd, mae angen gwelliannau sylweddol o hyd o ran trefniadau llywodraethu, rheoli risg a monitro perfformiad.**

13 Rhoddir ystyriaeth fanylach yn yr adrannau canlynol i'r canfyddiadau sy'n sail i'r casgliadau hyn.

## Llywodraethu

14 Fel yn y blynyddoedd cynt, rydym wedi archwilio trefniadau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd. Buom yn adolygu:

- y modd y mae'r Bwrdd a'i is-bwyllgorau yn cynnal eu busnes;
- y graddau y mae strwythurau trefniadol yn cefnogi llywodraethu ac atebolrwydd da; ac
- a yw'r wybodaeth y mae'r Bwrdd (a'i is-bwyllgorau) yn ei derbyn yn ei gynorthwyo i oruchwylio a herio perfformiad a monitro cyflawniad amcanion y sefydliad.

15 Gwelsom fod **rhai trefniadau llywodraethu wedi gwella, ond mae gennym bryderon ynghylch rheoli risg a rhai prosesau llywodraethu sylfaenol eraill.**

### Gweinyddu busnes yn effeithiol

16 Buom yn edrych ar y modd y mae'r Bwrdd yn ei drefnu ei hun er mwyn helpu i weinyddu busnes yn effeithiol. **Mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd camau i wella trefniadau'r bwrdd a'r pwyllgorau, ond nid yw eto wedi sicrhau arfer da cyson ar draws y sefydliad.**

17 Mae trefniadau llywodraethu cadarn yn hollbwysig er mwyn rhoi cyfeiriad strategol, herio effeithiolrwydd darpariaeth a sicrhau bod camau unioni yn cael eu gweithredu i ddatrys problemau os ydynt yn codi. Yn ein hasesiad strwythuredig yn 2017, gwelsom nad oedd y Bwrdd a rhai o'i bwyllgorau wedi goruchwylio'n ddigon trwyadl a chyson. Roedd hyn yn rhannol oherwydd y trosiant mewn aelodau annibynnol. Yn debyg i lawer o fyrddau iechyd, gwelwyd trosiant mawr mewn aelodau annibynnol o fewn y Bwrdd Iechyd. Gadawodd pedwar aelod annibynnol, gan gynnwys Is-gadeirydd y Bwrdd a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio. Gyda'r tair swydd a oedd eisoes yn wag, mae hyn wedi golygu recriwtio cyfanswm o saith o aelodau annibynnol newydd. O'r saith o aelodau, dim ond un ohonynt oedd wedi cael profiad blaenorol o fod ar Fwrdd y GIG. Roedd ymsefydlu'r aelodau newydd hyn a sicrhau eu bod n dod yn gyfarwydd â

materion y Bwrdd Iechyd a'r GIG yn dasg sylweddol. Cafodd yr aelodau newydd eu hymsefydlu'n ffurfiol rhwng mis Hydref 2017 a mis Ionawr 2018, drwy gymysgedd o sesiynau mewnol a sesiynau Cymru gyfan[1].

18 Bob yn eilfis, trefnir sesiwn datblygu'r bwrdd rhwng cyfarfodydd y bwrdd cyhoeddus. Yn 2017-18, defnyddiwyd y sesiynau hyn ar gyfer dysgu ac er mwyn meithrin tîm. Mae rhaglen datblygu'r Bwrdd 2018-19 wedi'i dylunio i helpu'r Bwrdd a'i bwyllgorau canolbwyntio ar fusnes mwy strategol.

19 Yn ystod 2018, cymerodd y Bwrdd Iechyd gamau i gryfhau gwaith y Bwrdd a'r pwyllgorau. Yn sesiwn datblygu'r bwrdd ym mis Chwefror 2018, cytunodd aelodau'r bwrdd ar yr amcanion gwella canlynol i'r Bwrdd:

- canolbwyntio mwy ar strategaeth y Bwrdd Iechyd yn hytrach nag ar faterion gweithredol;
- rhoi mwy o sylw i genhadaeth y Bwrdd Iechyd, 'Gofalu am Bobl, Cadw Pobl yn Iach' a'r 10 amcan strategol yn Siapio ein Llesiant yn y Dyfodol;
- alinio amcanion strategol yn well â'r prif risgiau corfforaethol;
- derbyn lefelau craffu a sicrwydd uwch;
- lleihau swmp y papurau; ac
- osgoi dyblygu papurau a thrafodaethau rhwng gwahanol Bwyllgorau ac/neu'r Bwrdd.

20 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno newidiadau i gefnogi'r amcanion hyn. Er enghraifft:

- **Aelodaeth pwyllgorau.** Yn ddiweddar, aildrefnodd y Bwrdd Iechyd y modd y caiff aelodau annibynnol eu rhannu ymhlith y pwyllgorau. Dyma ymgais i gynyddu cyfraniad yr aelodau hynny hyd yr eithaf, drwy wneud y defnydd gorau o'u sgiliau, eu harbenigeddau a'u diddordebau unigol.
- **Rheolau'r Bwrdd.** Mae'r rhain bellach yn cefnogi'r newidiadau a ddymunir o ran ymddygiad. Er enghraifft: ystyried materion o safbwynt strategol; herio mewn modd adeiladol; gofyn am eglurhad ynghylch papurau ymlaen llaw; mabwysiadu safbwynt cyfannol. Caiff copïau o reolau'r Bwrdd eu harddangos yng nghyfarfodydd y Bwrdd.
- **Templed o adroddiadau cyflwyno'r Bwrdd a'r pwyllgorau.** Mae fersiwn wedi'i diweddaru bellach yn annog mwy o ffocws ac eglurder. Mae cyfarwyddiadau i'r Bwrdd a'r pwyllgorau ynghylch pwrpas y papurau yn symlach, naill ai 'er sicrwydd' neu 'er mwyn gwneud penderfyniad'. Mae'r categorïau eraill wedi'u dileu. Mae'r templed yn cyfyngu ar hyd y prif adroddiad i ddwy dudalen a hanner yn unig. Profwyd y templed newydd yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Medi 2018.
- **Cyflwyno cwestiynau ymlaen llaw cyn cyfarfodydd y Bwrdd.** Er mwyn gwella effeithlonrwydd, caiff aelodau annibynnol gyflwyno cwestiynau i aelodau gweithredol cyn cyfarfod y Bwrdd. Bydd y cwestiynau hyn yn cael eu llunio mewn cyfarfod a gynhelir rhwng cadeirydd y Bwrdd a'r aelodau annibynnol rai dyddiau cyn cyfarfodydd y Bwrdd. Nid yw'r broses hon yn atal yr aelodau rhag gofyn cwestiynau yn y cyfarfod, ond mae'n rhoi cyfle i swyddogion baratoi ateb pendant.

21 Mae'r gwelliannau a gyflwynwyd yn ddiweddar i waith y Bwrdd a'r pwyllgorau yn gadarnhaol, ond bydd angen newid ymddygiad a disgyblaeth yn barhaol er mwyn sicrhau llwyddiant. Roedd pob un o'n cyfweleion yn cydnabod yr ymgais hwn i godi trafodaethau'r Bwrdd a'r pwyllgorau i lefel fwy strategol. Yn gyffredinol, gwelsom ostyngiad yn swmp y papurau a gyflwynir ar gyfer cyfarfodydd y Bwrdd a'r pwyllgorau o gymharu â'r llynedd. Fodd bynnag, nid yw cylchoedd gorchwyl na rhaglenni gwaith y Pwyllgorau yn gyfredol. Mae'r Bwrdd Iechyd yn ymwybodol o hyn ac yn gweithio i ymdrin â hynny.

22 Yn ein hasesiad strwythuredigyn 2017, codwyd pryderon ynghylch y cydbwysedd rhwng gwaith y Pwyllgor Strategaeth ac Ymgysylltu (SacY) a'r Pwyllgor Adnoddau a Chyflawni (AaCh). Ar ôl gweithredu am chwe mis, cynhaliodd y Bwrdd Iechyd adolygiad o'r pwyllgorau hyn a chyflwyno'r Pwyllgor Strategaeth a Chyflawni (SaCh) i'w disodli, gan gyfeirio at ddiffyg eglurder ynghylch cyfrifoldebau ac achosion o ail-

[1]Darparwyd hyfforddiant a seminarau Cymru gyfan drwy Academi Cymru a Chydffederasiwn y GIG.

wneud gwaith. Cynhaliodd y Pwyllgor Strategaeth ac Ymgysylltu (SacY) ei gyfarfod olaf ym mis Tachwedd 2017 a'r Pwyllgor Adnoddau a Chyflawni (AaCh) ei gyfarfod olaf ym mis Ionawr 2018. Cyfarfu'r Pwyllgor Strategaeth a Chyflawni (SaCh) am y tro cyntaf ym mis Mawrth h2018, a buom yn arsylwi ei drydydd cyfarfod ym mis Medi 2018. Mae'n dal yn gymharol newydd, ond gwelsom ei fod yn gweithio'n dda. Er enghraifft; cafwyd lefelau da o herio a thrafodaeth; cynhaliwyd y cyfarfod yn unol â'r amser a neilltuwyd ar ei gyfer; a gwnaeth y cadeirydd ddefnydd da o'r adroddiadau cyflwyno. Fodd bynnag, rydym yn pryderu y gallai'r Pwyllgor Strategaeth a Chyflawni wynebu problemau gan fod ei gylch gwaith mor eang. (Yn debyg i'r Pwyllgor Pobl, Cynllunio a Pherfformiad, a gafodd ei ddiddymu gan fod ei gylch gwaith yn eang ac yn anhydrin). Fodd bynnag, dywedodd swyddogion gweithredol ac aelodau annibynnol wrthym eu bod yn ymwybodol o'r her, ac yn benderfynol o gadw trafodaethau'r Pwyllgor Strategaeth a Chyflawni ar lefel strategol.

23 Ni chafwyd unrhyw newid i bwyllgorau eraill y Bwrdd. Gwelsom rai gwelliannau o ran y craffu a'r herio yng nghyfarfodydd y Bwrdd a'i brif bwyllgorau[2]. Mae'n bosib bod hyn oherwydd bod y swyddogion gweithredol newydd a'r aelodau annibynnol newydd bellach yn teimlo'n fwy cartrefol yn eu rolau.

24 Hefyd, yn ein hasesiad strwythuredig ar gyfer 2017, adroddwyd mai'r Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau (ADPh) oedd y ddau bwyllgor a oedd yn cael eu cynnal orau. Mae hyn yn parhau i fod yn wir, ond mae'r pwyllgorau eraill yn gwella. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn cyfarfod yn fisol i gynnal trafodaeth fanwl fer ar y sefyllfa ariannol, ar gynnydd yn erbyn rhaglen lleihau costau'r Bwrdd Iechyd, ac er mwyn ystyried y gofrestr risg ar gyfer cyllid. Mae papurau'r cyfarfod wedi'u hysgrifennu'n glir a chryno, sydd o gymorth er mwyn cynnal trafodaeth dda. Ers mis Gorffennaf 2018, mae'r Pwyllgor Cyllid yn craffu'n fanwl ar y sefyllfa ariannol ac wedyn yn rhoi sicrwydd i'r Bwrdd. Cyn hynny, byddai'r Bwrdd yn derbyn yr un adroddiad cyllid ag yr oedd y pwyllgor yn ei dderbyn, a oedd yn golygu ail-wneud gwaith. Yn 2017, tynnwyd sylw at yr oedi wrth uwchlwytho papurau'r Pwyllgor Cyllid i wefan y Bwrdd Iechyd. Yr oedd oedi o hyd wrth lunio'r adroddiad hwn, gyda dau fis o bapurau ar goll (Hydref 2018 a Thachwedd 2018).

25 Yn rhan o'n hadolygiad yn 2018, buom yn arsylwi cyfarfod blynyddol arbennig y Pwyllgor ADPh. Canolbwyntiai'r cyfarfod ar yr hyn a ddysgwyd yn sgil digwyddiadau difrifol, pryderon ac esgeulustod clinigol dros y flwyddyn ddiwethaf. Roedd y papurau'n gryno ac wedi'u hysgrifennu'n glir, ac yn dangos dadansoddiad o dueddiadau yn gysylltiedig â themâu, a amlygai feysydd a oedd yn destun pryder. Yn ogystal â hynny, rhoddwyd y newyddion diweddaraf i'r aelodau am fentrau i annog dysgu, er enghraifft, sesiynau ôl-friffio clinigol. Roedd y cyfarfod yn gyfarfod da, gyda chraffu da a chyfranogiad da gan yr aelodau. Mae'r Pwyllgor ADPh yn parhau i dderbyn sicrwydd oddi wrth fyrddau clinigol ar gylchdro, ac mae ganddo eitem sefydlog ar agenda'r Cyngor Iechyd Cymunedol.

26 Cafwyd perfformiad amrywiol gan y Pwyllgor Archwilio eleni. Ceir rheolaeth dda ar yr agenda, ac mae'r cyfarfodydd yn cael eu cynnal ar amser. Mae'r cadeirydd yn caniatáu digon o amser i'r aelodau archwilio'r materion fel bo'r angen. Mae'r ansawdd o ran craffu a gofyn cwestiynau wedi amrywio, ond mae hynny'n gwella. Er enghraifft, yn dilyn adroddiad diweddar ar gyfarpar meddygol, gofynnodd yr aelodau annibynnol ar unwaith am gyfarfod â'r swyddogion gweithredol i drafod hyn ymhellach. Fodd bynnag, mae hyd, trefn a fformat y papurau pwyllgor weithiau'n rhwystro craffu effeithiol. Mae papurau'r pwyllgor yn amrywio rhwng 100 o dudalennau a 500 o dudalennau o ran hyd, a safon y cyflwyniad, y strwythur a'r fformat yn amrywio. Mae ar aelodau annibynnol angen papurau sydd yn hawdd eu treulio, eu deall a'u trin. Nid oes gan y Pwyllgor Archwilio ychwaith ddull cyson a chynhwysfawr ar hyn o bryd o gadw golwg ar y gwahanol ffrydiau sicrwydd y mae'n eu derbyn. Gall hyn ei atal rhag canlyn eitemau fu gynt ar yr agenda yn effeithiol, gan wanio'r sicrwydd. Yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr 2018, derbyniodd y Pwyllgor Archwilio gynllun gwaith a ddylai fod o gymorth iddo sicrhau amserlen ac ymdriniaeth effeithiol ac effeithlon â'r holl fusnes angenrheidiol. Mae aelodau'r Pwyllgor Archwilio yn arddangos dymuniad gwirioneddol i wneud

[2] Yn rhan o'n gwaith ar yr asesiad strwythuredig, buom yn arsylwi'r Bwrdd a'r pwyllgorau canlynol - y Pwyllgor Cyllid, y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau, y Pwyllgor Strategaeth a Chyflawni a'r Pwyllgor Archwilio.

gwahaniaeth ac i ddwyn swyddogion gweithredol i gyfrif. Fodd bynnag, mae rhai aelodau wedi mynegi rhwystredigaeth ynghylch diffyg awdurdod ymddangosiadol y pwyllgor ymhlith gweddill y sefydliad.

27 Drwy ein holl waith yn arsylwi'r Bwrdd a'i bwyllgorau, gwelsom sgiliau cadeirio da ond anghyson. Gwelsom enghreifftiau o arfer da, fel: cadw at brosesau sydd wedi'u derbyn, fel gofyn am ddatganiadau buddiant; adolygu a chytuno ar gofnodion mewn fel mater o drefn; sicrhau bod y cyfarfodydd yn dechrau ar amser; rheoli'r eitemau ar yr agenda; craffu ar wybodaeth; a hwyluso trafodaeth. Fodd bynnag, ni welir yr arferion hyn yn gyson bob tro.

## Rheoli risgiau i gyflawni blaenoriaethau strategol

28 Buom yn edrych ar y modd y mae'r Bwrdd yn rhoi sicrwydd iddo ei hun fod risgiau i gyflawni blaenoriaethau strategol wedi'u rheoli'n dda. **Oherwydd oedi wrth ddiwygio'r fframwaith sicrwydd risg corfforaethol, dim ond yn ddiweddar y mae'r Bwrdd wedi dechrau goruchwylio risgiau strategol yn ddigonol.**

29 Mae Fframwaith Risg a Sicrwydd Corfforaethol (FfRSC) y Bwrdd Iechyd yn cyfuno'r gofrestr risg gorfforaethol a Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd (FfSB). Yn ein hasesiad strwythuredig yn 2017, nodwyd bod y Bwrdd Iechyd yn adolygu'r FfRSC gan fwriadu ei ail-lansio ym mis Ebrill 2018.

30 Fodd bynnag, bu'r Bwrdd Iechyd yn araf yn adolygu ac yn diwygio'r FfRSC. Nid yw'r Bwrdd na'i bwyllgorau wedi derbyn y FfRSC ers mis Tachwedd 2017. Ar ben hynny, ychydig iawn o ddiweddariadau y mae'r Bwrdd wedi'u derbyn ar gynnydd adolygu'r FfRSC. cafwyd y diweddariad diwethaf ym mis Ionawr 2018.

31 Dywed swyddogion gweithredol y Bwrdd Iechyd eu bod yn rheoli risgiau corfforaethol mewn cyfarfodydd rheoli gweithredol. Fodd bynnag, nid yw hyn yn ddelfrydol gan nad yw'r Bwrdd felly'n gweld nac yn craffu ar y risgiau hynny. Ar ben hynny, ni chawsom hyd i unrhyw dystiolaeth bod aelodau Bwrdd yn derbyn sicrwydd rhesymol bod y tîm gweithredol yn rheoli risgiau corfforaethol wrth adolygu'r FfRSC. Sylwn nad yw'r Bwrdd Iechyd wedi diweddaru ei bolisi rheoli risg ers 2013.

32 Mae'r Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol yn gwneud cynnydd o ran datblygu Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd (FfSB). Mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu cyflwyno'r canlynol i ddisodli'r FfRSC: FfSB ar wahân sy'n nodi'r risgiau strategol i gyflawni'r amcanion strategol; a chofrestr risg gorfforaethol sy'n nodi'r prif risgiau i'r sefydliad.

33 Derbyniodd y Bwrdd ddrafft o FfSB ym mis Tachwedd 2018, ac fe'i cyflwynwyd gerbron y Pwyllgor Archwilio ym mis Rhagfyr 2018. Datblygwyd y FfSB drwy drafodaethau mewn cyfarfodydd rheoli gweithredol. Yn y cyfarfodydd hynny, nodwyd mai'r chwe risg a ganlyn oedd yn achosi'r risg fwyaf i amcanion strategol y Bwrdd Iechyd:

- y gweithlu;
- cynaliadwyedd ariannol;
- gofal sylfaenol a gofal cymunedol;
- cydymffurfio â rheoliadau a rheolau diogelwch;
- newid diwylliant mewn modd cynaliadwy; ac
- asedau cyfalaf (gan gynnwys ystadau, TG a chyfarpar meddygol).

34 Mae'r FfSB yn rhestru amcanion strategol y Bwrdd Iechyd ac yn nodi'r canlynol:

- y prif risgiau sy'n bygwth cyflawniad amcanion;
- y rheolaethau sydd ar waith i reoli/lliniaru'r prif risgiau;
- sicrwydd ynghylch y rheolaethau sydd ar waith;
- bylchau mewn rheolaeth;
- bylchau mewn sicrwydd; a

- chamau i fynd i'r afael â bylchau mewn rheolaeth a sicrwydd fel bo modd cyflawni amcanion.

35 O gymharu â'r FfRSC, a oedd yn rhestru dros 90 o risgiau, mae drafft y FfSB yn gliriach ac yn cynnwys ffocws mwy penodol. Dylai fod yn haws i'r Bwrdd a'i bwyllgorau ei adolygu. Pennir arweinydd gweithredol, pwyllgor a dyddiad cofnodi ar gyfer pob risg.

36 Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn adolygu'r modd y mae'n rheoli risgiau gweithredol. Dechreuodd y gwaith hwn y llynedd ochr yn ochr â'r adolygiad o'r FfRSC. Hyd yma, mae'r Bwrdd Iechyd wedi dylunio templed newydd ar gyfer cofrestrau risg, canllaw ar adnabod risgiau ac esboniad o'r drefn ar gyfer y gofrestr risgiau. Derbyniodd y Bwrdd ddrafft o'r canllaw rheoli risg ym mis Ionawr 2018, yn rhan o ddiweddariad ar waith adolygu'r FfRSC. Maer Pennaeth Llywodraethu wedi bod yn gweithio gyda gwasanaethau i adolygu eu risgiau a throsglwyddo eu cofrestr risg i'r templed newydd. Bydd y tîm llywodraethu yn sicrhau bod ymwybyddiaeth o'r broses gywir wedi'i chynnwys mewn hyfforddiant. Ar hyn o bryd, mae'r Bwrdd Iechyd yn cynnal system rheoli risg ar bapur, ond yn ystyried dull sy'n seiliedig ar TG.

37 Mae'r tîm llywodraethu yn sefydlu Grŵp Rheoli Risg. Pwrpas y grŵp hwn fydd adolygu cofrestrau risg a herio'r risgiau hynny y cynigir eu huwchgyfeirio i FfSB neu'r gofrestr risg gorfforaethol. Yn flaenorol, byddai risgiau'r bwrdd clinigol a chanddynt sgôr o 12 neu fwy yn cael eu huwchgyfeirio'n awtomatig i'r FfRSC. Oherwydd hynny, roedd y FfRSC yn faith ac yn anodd ei drin. Bydd Grŵp Rheoli Risg yn ceisio rheoli cynifer o risgiau ag sy'n bosibl ar lefel weithredol.

## Ymwreiddio system gadarn ar gyfer sicrwydd

38 Buom yn archwilio a oes gan y Bwrdd Iechyd system fewnol o reolaethau effeithiol i gefnogi sicrwydd y bwrdd. **Gwelsom rai meysydd lle ceir arfer da, ond mae angen i'r Bwrdd Iechyd gyflwyno amryw o welliannau sylweddol i'w system sicrwydd.**

39 Mae gan y Bwrdd Iechyd rai trefniadau da ar gyfer llywodraethu ansawdd. Dyfarnodd yr Adran Archwilio Mewnol sgôr sicrwydd sylweddol ar gyfer Datganiad Ansawdd Blynyddol y Bwrdd Iechyd. Ym mis Gorffennaf 2018, derbyniodd y Bwrdd adroddiad blynyddol Arolygiaeth Iechyd Cymru, a oedd i raddau helaeth yn gadarnhaol. Mae'r Bwrdd yn derbyn adroddiad rheolaidd ar ansawdd a diogelwch a phrofiadau cleifion. Mae'r adroddiadau'n dechrau cynnwys mwy o adborth o'r sectorau gofal sylfaenol a chymunedol.

40 Ceir rhaglen archwilio glinigol y mae'r Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol yn gyfrifol amdani. Mae'r Tîm Llywodraethu Clinigol yn rheoli'r rhaglen archwilio. Bydd archwiliadau clinigol yn cael eu trafod yng ngrwpiau ansawdd, diogelwch a phrofiadau cleifion y bwrdd clinigol, a'u trosglwyddo i'r Pwyllgor ADPh. Ym mis Mehefin 2018, derbyniodd y Pwyllgor ADPh y cynllun archwilio clinigol ar gyfer 2018-19.

41 Mae gan y Bwrdd Iechyd amserlen gynhwysfawr flynyddol o rawdiau. Bydd swyddogion gweithredol ac aelodau annibynnol yn cael eu paru nes trefnu o'r newydd. Fel arfer, bydd rhai â chefndir clinigol yn cael eu partneru â rhai heb gefndir clinigol. Targedir rhawdiau at feysydd clinigol sy'n destun pryder, neu lle cafwyd cwynion, ac at wasanaethau na chynhaliwyd ymweliad â hwy'n ddiweddar. Caiff yr wybodaeth a gesglir ar rawdiau ei thriongli â gwybodaeth arall am brofiadau cleifion ac arolygiadau mewnol. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod angen iddo wella'r modd y mae'n cofnodi rhawdiau.

42 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi diweddaru ei broses ar gyfer derbyn ac adolygu pryderon y staff. Mae gan y Bwrdd Iechyd sawl mecanwaith er mwyn galluogi'r staff i fynegi pryderon. Mae hyn yn cynnwys rhyddid i godi llais, falf diogelu a llythyrau dienw, a'r cyfan o'r rheiny'n cael eu cyfeirio i sylw'r tîm llywodraethu. Bydd y Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a'r Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol yn penderfynu ar y cyd sut i symud ymlaen â phob un.

43 Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydymffurfio'n well â rheolau ymdrin â chwynion. Ym mis Mawrth 2018, cafwyd ymateb i 74% o gwynion ffurfiol cyn pen 30 diwrnod (Mawrth 2017, 48%). Ar gyfer 2018-19, mae'r Bwrdd yn anelu i sicrhau a chynnal cyfradd ymateb o 80%. 80% oedd perfformiad y Bwrdd Iechyd yn ddiweddar, fel yr adroddwyd ym mis Tachwedd 2018. Mae'r Bwrdd Iechyd bellach yn ymdrin â'r rhan fwyaf o gwynion yn anffurfiol. Rhwng mis Gorffennaf 2017 a mis Awst 2018, ymdriniwyd â 60% o gwynion drwy'r broses

gwyno anffurfiol, gan olygu bod llai na 2% wedi arwain at gŵyn ffurfiol. Derbyniodd y Bwrdd Iechyd lai o gwynion ffurfiol yn 2017-18 (1080) o gymharu â 2016-17 (1118).

44 Yn 2017 nododd y Bwrdd Iechyd broblemau yn gysylltiedig â llawfeddygaeth baediatrig ar sail cwynion, pryderon, hawliadau a digwyddiadau a adroddwyd. Dechreuwyd cyfarfodydd ar lefel weithredol â'r Bwrdd Clinigol Plant a Menywod cyn gynted ag y daeth y problemau'n hysbys. Mabwysiadodd y Bwrdd Iechyd ymagwedd aeddfed at lywodraethu ansawdd a gofyn i Goleg Brenhinol y Llawfeddygon adolygu'r cofnodion clinigol perthnasol. Cynhaliwyd yr adolygiad hwnnw ym mis Gorffennaf 2017. Cafodd y Pwyllgor ADPh hefyd wybod am y broblem ym mis Gorffennaf 2017. Oherwydd natur sensitif y broblem, cynhaliwyd y trafodaethau cynnar yn sesiwn breifat y Pwyllgor ADPh.

45 Adroddodd Coleg Brenhinol y Llawfeddygon eu canfyddiadau ym mis Hydref 2017. Rhannodd y Bwrdd Iechyd yr adroddiad yn breifat â Phwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (PGIAC) a Llywodraeth Cymru. Ond yn unol â'i ddyletswydd i fod yn ddidwyll, derbyniodd cyfarfod Bwrdd mis Medi 2018 yr adroddiad mewn sesiwn gyhoeddus, gan amlinellu'r materion a'r camau a gymerwyd.

46 Yn ystod ein gwaith, canfuom amryw o wendidau yn y systemau rheolaeth fewnol sy'n cefnogi sicrwydd y bwrdd. Mae'r rhain wedi'u nodi yn y pwyntiau bwled isod. Ar adeg ein gwaith maes, roedd y Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol wedi bod yn ei swydd ers chwe wythnos. Mae hi'n ymwybodol o'r problemau yr ydym wedi'u hamlygu ac yn bwriadu mynd i'r afael â hwy dros y 12 mis nesaf.

- **Cafodd y Cynllun Dirprwyo** ei adolygu ym mis Chwefror 2018 mewn ymateb i'n hadroddiad er budd y cyhoedd. Fodd bynnag, ni chafodd ei ddiweddaru i adlewyrchu'r cyfrifoldeb dirprwyedig dros gyfrifo'r lefelau staffio nyrsys sydd eu hangen o dan Ddeddf Lefelau Staffio Nyrsys (Cymru).
- **Mae'r dyddiad Mai 2015 ar y Rheolau Sefydlog a'r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog** ac nid oes unrhyw dystiolaeth fod y naill ddogfen na'r llall wedi cael eu hadolygu ers hynny. Dylid adolygu'r ddwy ddogfen yn flynyddol.
- **Roedd cofrestrau datgan buddiannau a rhoddion, lletygarwch a nawdd** ar yr agenda ar gyfer Pwyllgor Archwilio mis Medi 2017, ond dim ond y gofrestr buddiannau a gyflwynwyd. Ym mis Medi 2018, cynhaliodd y Pwyllgor Archwilio adolygiad o'r ddwy gofrestr, nod nid oedd fformat y dogfennau yn hawdd ei ddarllen. Ceir risg y gallai'r rhai sy'n adolygu'r cofrestrau ei chael hi'n anodd nodi problemau fel achosion o beidio datgan. Ym mis Rhagfyr 2018, derbyniodd y Pwyllgor Archwilio adroddiad sicrwydd cyfyngedig oddi wrth yr Adran Archwilio Mewnol ynghylch safonau ymddygiad busnes y sefydliad, a oedd yn cynnwys trefniadau ar gyfer datgan buddiannau a rhoddion, lletygarwch a nawdd. Nodai'r adroddiad sawl gwendid ar draws y systemau sydd ar waith ar gyfer y naill broses a'r llall. Roedd y rhain yn amrywio rhwng llenwi ffurflenni a chofnodi manylion ar y gofrestr a chryfder yr adroddiadau a gyflwynir gerbron y Pwyllgor Archwilio.
- **Caiff polisïau newydd a diwygiedig** eu cyflwyno gerbron y pwyllgorau perthnasol i'w cymeradwyo. Ond ni welsom unrhyw gyfrifoldebau wedi'u dyrannu, na dulliau tracio er mwyn sicrhau bod polisïau ar gyfer y sefydliad cyfan yn gyfredol. Mae peryg i bolisïau fynd heibio eu dyddiad adolygu heb unrhyw fecanwaith i hysbysu ynghylch hynny. Gallai hyn danseilio FfSB newydd y Bwrdd Iechyd gan fod polisïau cyfredol fel arfer yn rheolaeth allweddol yn FfSB. Gwelsom fod amryw o bolisïau ar wefan y Bwrdd Iechyd wedi mynd heibio eu dyddiad adolygu.

47 Mae dull tracio cadarn ar gyfer argymhellion archwilio yn rhoi sicrwydd i fyrddau iechyd eu bod yn ymdrin ag argymhellion. Y mae hefyd yn galluogi pwyllgorau archwilio i ddwyn swyddogion i gyfrif os na cheir rhyw lawer o gynnydd, neu os na cheir unrhyw weithredu. Mae gan y Bwrdd Iechyd ddau draciwr argymhellion, y naill ar gyfer argymhellion Swyddfa Archwilio Cymru a'r llall ar gyfer argymhellion a wneir gan arolygiaethau allanol eraill. Gwelsom wendidau yn nhrefniadau tracio'r Pwyllgor Archwilio:

- Mae'r Pwyllgor Archwilio yn derbyn y ddau draciwr, ond nid oes unrhyw brotocol i gynghori pa mor aml y dylid eu hadolygu. Y tro diwethaf i'r tracwyr gael eu cyflwyno gerbron y Pwyllgor Archwilio oedd mis Medi 2018, ond nid ydynt bob amser ar yr un agenda.

- Nid yw'r naill draciwr na'r llall yn cadw gwybodaeth am nifer yr argymhellion na'u statws. Mae'r tracwyr yn cynnwys adolygiadau sy'n rhychwantu amryw o flynyddoedd, a'r disgrifiad gorau ar gyfer llawer o'r tracwyr yw 'parhaus'.
- O ran adroddiadau archwilio a gyfeirir i sylw pwyllgorau eraill, nid yw'n sicr sut mae'r Pwyllgor Archwilio yn derbyn sicrwydd bod argymhellion wedi'u cwblhau.
- Nid yw fformat y ddau draciwr yn hawdd ei ddarllen, felly gallai fod yn rhwystr i adnabod themâu a gwersi cyffredin i'w dysgu.
- Nid yw'r naill draciwr na'r llall yn cynnwys argymhellion Archwilio Mewnol.

48 Yn ein hasesiad strwythuredig yn 2016, argymhellwyd y dylid cryfhau'r trefniadau tracio ar gyfer argymhellion archwilio allanol. Rydym o'r farn fod yr argymhelliad hwn yn dal i sefyll ac y dylid ei ehangu i gynnwys argymhellion Archwilio Mewnol.

49 Yn rhan o'n gwaith buom yn adolygu trefniadau rheoli perfformiad. Yn ein hasesiad strwythuredig yn 2017, adroddwyd bod y trefniadau ar gyfer rheoli perfformiad gweithredol yn gadarn, ond bod goruchwyliaeth y Bwrdd a'i bwyllgorau yn aneffeithiol. Ym mis Ebrill 2018, cryfhaodd y Bwrdd Iechyd drefniadau adolygu perfformiad y bwrdd clinigol ac uwchgyfeirio. Drwy'r dull newydd ceir crynodeb o berfformiad y bwrdd clinigol mewn adroddiadau sicrwydd. Mae'r tîm gweithredol yn trafod yr adroddiadau sicrwydd hyn ac, os oes angen, yn penderfynu ynghylch statws uwchgyfeirio pob bwrdd clinigol. Mae lefel uwchgyfeirio uwch yn ysgogi cynllun gweithredu i adfer perfformiad ac yn denu mwy o sylw gan y tîm gweithredol.

50 Mae cynllun tair blynedd y Bwrdd Iechyd yn cyfeirio at y fframwaith rheoli perfformiad. Fodd bynnag, nid yw'r fframwaith rheoli perfformiad wedi cael ei ddiweddaru ers 2013, felly nid yw'n adlewyrchu'r newidiadau sylweddol a gafwyd ers hynny. Er enghraifft, strwythurau trefniadol, pwyllgorau a threfniadau perfformiad y bwrdd clinigol. Mae'r Bwrdd Iechyd ar hyn o bryd yn mapio'r holl fesurau perfformiad er mwyn sicrhau bod y pwyllgor priodol yn craffu arnynt.

51 Yn 2017, adroddwyd bod gwybodaeth am berfformiad a adroddir ar lefel pwyllgor yn llai manwl na'r hyn a adroddir gerbron y Bwrdd. Mae hyn yn dal i fod yn wir. Er enghraifft, mae'r Pwyllgor SaCh newydd yn gyfrifol am roi sicrwydd i'r Bwrdd ynghylch perfformiad a'r gweithlu. Mae'n derbyn data ar berfformiad targedau Haen 1, ond heb unrhyw naratif. Mae'r Prif Swyddog Gweithredu yn rhoi esboniad manwl ar lafar i'r Pwyllgor SaCh ynghylch perfformiad, ac adlewyrchir hynny yn y cofnodion. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd yn derbyn y dangosfwrdd ar gyfer yr holl berfformiad, gan gynnwys targedau lleol a chenedlaethol, ynghyd ag adroddiadau eithrio ar dargedau â blaenoriaeth a thargedau lle mae perfformiad yn dirywio. Mae hyn yn ymddangos fel pe bai'n groes i amcanion gwella'r Bwrdd, sy'n anelu i edrych ar bethau mewn modd mwy strategol a threfnu bod ei bwyllgorau yn cynnig lefelau craffu a sicrwydd uwch.

## Sicrhau fframwaith cadarn ar gyfer llywodraethu gwybodaeth a seiberddiogelwch.

52 Buom yn archwilio ymagwedd y Bwrdd Iechyd at lywodraethu gwybodaeth a seiberddiogelwch. **Fel mater o frys, mae angen i'r Bwrdd Iechyd wella trefniadau llywodraethu gwybodaeth a chryfhau ei fframwaith seiberddiogelwch.**

53 Y llynedd, adroddwyd bod y Bwrdd Iechyd yn annhebygol o fodloni gofynion y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (RhDDC). Ni lwyddodd y Bwrdd Iechyd i fodloni terfyn amser Mai 2018 ar gyfer cydymffurfio â gofynion y RhDDC. Yn ôl yr adran llywodraethu gwybodaeth, mae ei chapasiti'n brin. Recriwtiodd y Bwrdd Iechyd staff llywodraethu gwybodaeth ychwanegol yn ddiweddar, a ddylai fod o gymorth iddo sicrhau cydymffurfiaeth lawn â'r RhDDC erbyn mis Mai 2019.

54 Mae angen gwneud mwy o waith i sicrhau cydymffurfiaeth lawn, er enghraifft:

- cwblhau cofrestrau asedau gwybodaeth ar gyfer yr holl fyrddau clinigol;
- penodi Swyddog Diogelu Data parhaol;
- cwblhau asesiadau effaith ar breifatrwydd cyn prosesu gwybodaeth; a
- nodi, lle bo angen, rhwydwaith o berchnogion a gweinyddwyr asedau gwybodaeth.

55 Yn 2016, rhoddodd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG) 'sicrwydd cyfyngedig' ynghylch trefniadau diogelu data'r Bwrdd Iechyd. Nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi ymdrin yn llawn eto â holl argymhellion SGC o 2016. Dywed ei fod yn brin o gapasiti yn yr adran Llywodraethu Gwybodaeth. Er bod cynllun gweithredu ar waith, mae'r rhan fwyaf o'r camau yn dal heb eu cwblhau. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd hefyd ddiweddaru ei strategaeth llywodraethu gwybodaeth.

56 Nid yw cydymffurfiaeth y Bwrdd Iechyd â Chyfrinachedd Gwybodaeth Caldicott wedi newid rhyw lawer. Ym mis Ebrill 2018, sgoriodd 70% yn yr hunanasesiad (68% ym mis Ebrill 2017). Mae cydymffurfiaeth â hyfforddiant llywodraethu gwybodaeth gorfodol wedi gwella gan gyrraedd 69% ond mae'n parhau i fod yn is na'r targed cenedlaethol o 95%.

57 Mae ymateb y Bwrdd Iechyd i geisiadau am fynediad at wybodaeth statudol yn wael. Yn 2018, roedd perfformiad y Bwrdd Iechyd o fewn y ffrâm amser ofynnol yn llawer is na'r targed statudol o 100%.

- Ceisiadau'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth - cydymffurfiaeth o 40%.
- Ceisiadau mynediad testun Deddf Diogelu Data - cydymffurfiaeth o 44%.

58 Yn fuan yn 2018, cafodd trefniadau Llywodraethu gwybodaeth a diogelu gwybodaeth o fewn y Bwrdd Iechyd eu hadolygu yn rhan o brosiect allanol gan GIG Cymru. Yn sgil hyn, nodwyd bod angen gwella'r trefniadau seiberddiogelwch. Ymatebodd y Bwrdd Iechyd drwy greu cynllun gweithredu gwella seiberddiogelwch. Mae'r cynllun yn cynnwys sefydlu tîm seiberddiogelwch arbenigol, diweddaru patsys diogelwch a chyflwyno meddalwedd a chaledwedd newydd yn lle rhai na cheir cefnogaeth ar eu cyfer mwyach. Yn ystod ein harchwiliad, diweddarodd y Bwrdd Iechyd ei gynlluniau adfer ar ôl trychineb TG, ond dim ond ar ôl inni ofyn am gopïau ohonynt. Ni welsom unrhyw dystiolaeth fod gan y Bwrdd Iechyd ymagwedd systematig a rheolaidd at:

- ddiweddaru ei gynlluniau adfer ar ôl trychineb TG na'i gynlluniau cydnerthedd; a
- phrofi cynlluniau cydnerthedd er mwyn sicrhau eu bod yn effeithiol ac yn gweithio'n unol â'r hyn a fwriedir.

59 Eleni mae'r is-bwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth a Thechnoleg Gwybodaeth [3] wedi goruchwylio gwaith yr adran Wybodeg. Bu ffocws yr is-bwyllgor ar faterion gweithredol yn niweidiol i faterion mwy strategol fel goruchwylio cyflawniad y cynllun strategol a rheoli sicrwydd.

[3] Mae'r Pwyllgor hwn yn adrodd wrth y Pwyllgor SaCh

## Cynllunio strategol

60 Yn rhan o'n gwaith, buom yn archwilio'r modd y mae'r Bwrdd yn pennu amcanion strategol a'r graddau y mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu cyflawni ei amcanion. Yn olaf, roeddem am wybod pa mor effeithiol yw'r Bwrdd Iechyd wrth wirio cynnydd ei gynlluniau. **Mae gweledigaeth y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2015 yn parhau i fod yn berthnasol, ac mae trefniadau cynllunio strategol yn gadarn ar y cyfan, ond mae angen trefniadau gwell i fonitro perfformiad.**

61 Buom yn edrych ar y modd y mae'r Bwrdd yn mynd ati i bennu ei flaenoriaethau, gan ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol, ac yn nodi'r rheiny mewn CTCI neu CGB clir. Mae strategaeth 10 mlynedd y Bwrdd Iechyd, Strategaeth Siapio ein Llesiant i'r Dyfodol: 2015-25[4] yn nodi ei genhadaeth, ei weledigaeth a'i nodau strategol, sef:

- **Cenhadaeth** - 'Gofalu am Bobl, Cadw Pobl yn Iach'.
- **Gweledigaeth** - 'mae cyfle unigolyn i fyw bywyd iach yr un peth, lle bynnag y bo'n byw a phwy bynnag yr ydyw'.
- **Strategaeth** - 'Sicrhau gofal cydgysylltiedig sy'n seiliedig ar y cartref yn gyntaf, osgoi niwed, gwastraff ac amrywio, grymuso pobl a sicrhau deilliannau sydd o bwys iddynt'.

62 Datblygwyd strategaeth 10 mlynedd y Bwrdd Iechyd yn dilyn ymgynghori helaeth â rhanddeiliaid, a oedd yn cynnwys Grŵp Cyfeirio'r Bwrdd a Rhanddeiliaid. Mae gweithgarwch ymgysylltu parhaus hefyd yn llunio rhaglenni gwaith tanategol y strategaeth 10 mlynedd, a datblygiad y CTCI yn y dyfodol. Er enghraifft, datblygu tair canolfan iechyd a llesiant. Yn ôl y Bwrdd Iechyd, mae gwaith i ymgysylltu â rhanddeiliaid yn mynd rhagddo'n dda. Yn ein hadroddiad Adolygiad o wasanaethau gofal sylfaenol ym mis Rhagfyr 2018, canfuom nad yw ymgyngoriadau â rhanddeiliaid bob amser yn cael eu cynnal ar yr amseroedd gorau. Er enghraifft, bydd ymgyngoreion weithiau'n teimlo bod y Bwrdd Iechyd yn eu hysbysu yn hytrach nag yn ymgynghori â hwy.

63 Mae gan y Bwrdd Iechyd hierarchaeth o gynlluniau sydd yn gyson y naill â'r llall. Mae'r strategaeth 10 mlynedd yn pennu'r weledigaeth a'r strategaeth lefel uchel. O dan hyn, mae gan y Bwrdd Iechyd gynllun tair blynedd, sydd yn gyson â'r strategaeth 10 mlynedd. Gan nad oes CTCI cymeradwy mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio'n unol â Chynllun Gweithredu Blynyddol, sydd yn gyson â'r cynllun tair blynedd.

64 Buom yn edrych ar y modd yr aeth y Bwrdd Iechyd ati i ddatblygu ei strategaethau 10 mlynedd a 3 blynedd, ac a oedd dadansoddiadau priodol o gostau, adnoddau ac arbedion i gefnogi'r strategaethau hynny. Ni chafodd y CTCI a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2018 ei dderbyn oherwydd y rhagdybiaethau ariannu a oedd yn sail iddo. Ailedrychodd y Bwrdd Iechyd ar ei CTCI, ond nid oedd yn gallu cyflwyno CTCI ariannol gytbwys ar y pryd. O ganlyniad i hynny, gofynnodd Llywodraeth Cymru i'r Bwrdd Iechyd weithio'n unol â Chynllun Gweithredol Blynyddol.

65 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cychwyn paratoi ei CTCI ar gyfer 2019-21, a bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried cymeradwyo'r cynllun hwnnw erbyn 30 Mehefin 2019. Ceir llinell amser fanwl ar gyfer datblygu CTCI 2019-21 a chyflwynwyd y llinell amser honno gerbron y Pwyllgor SaCh ym mis Medi 2018. Mae'n bosibl y bydd gallu'r Bwrdd Iechyd i ddatblygu CTCI cymeradwy ar gyfer 2019-21 yn dylanwadu ar unrhyw benderfyniad gan Lywodraeth Cymru ynghylch statws 'ymyrraeth dargededig' y sefydliad. Yn ôl y Bwrdd Iechyd, mae ganddo'r adnoddau angenrheidiol i ddatblygu cynlluniau strategol a CTCI cymeradwy.

66 Yn ein hasesiad strwythuredig yn 2017, adroddwyd bod proses cynllunio CTCI y Bwrdd Iechyd yn gadarn ar y cyfan. Ni chafwyd unrhyw newidiadau sylweddol i'r broses ers hynny, ar wahân i rai mân welliannau. Roedd y rhai y buom yn siarad â hwy yn ystod yn ein gwaith yn deall y broses gynllunio. Fodd bynnag, yn

[4]Siapio ein Lles i'r Dyfodol 2015-2025.

ystod ein gwaith gwelsom feysydd unigol lle cafwyd gwaith cynllunio gwannach. Er enghraifft, rheoli asedau a TG[5].

67 Mae'r canlynol yn cefnogi ymagwedd cynllunio CTCI y Bwrdd Iechyd:

- rolau a chyfrifoldebau wedi'u diffinio'n dda;
- templed CTCI er mwyn sicrhau ymagwedd gyson rhwng byrddau clinigol;
- cylch sefydlog o ddadansoddiadau galw a chapasiti;
- gweithgareddau dysgu a gwerthuso; ac
- amcanion a chynlluniau ariannol.

68 Mae strategaeth glinigol y Bwrdd Iechyd wedi'i chyfleu yn ei strategaeth 10 mlynedd, ac oherwydd ei natur mae'n ddogfen lefel uchel. Bydd strategaeth danategol ar gyfer gwasanaethau clinigol, sy'n cael ei datblygu ar hyn o bryd, yn cydredeg â'r strategaeth 10 mlynedd i roi mwy o fanylion am wasanaethau clinigol.

69 Mae gan y Bwrdd Iechyd gynllun ariannol blwyddyn o hyd ar gyfer 2018-19, sydd yn sicrhau diffyg o £9.9 miliwn ac sy'n ei gwneud hi'n ofynnol sicrhau £33.8 miliwn o arbedion a £9.3 miliwn arall drwy welliannau ariannol. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi'r gwelliannau ariannol sydd eu hangen er mwyn cyflawni hyn, ac mae'n parhau i fod yn faes y mae'n canolbwyntio arno[6].

70 Yng nghynllun y Bwrdd Iechyd ar gyfer y gweithlu a datblygu trefniadol, nodir bod y cynllun wedi'i ddatblygu i integreiddio ag amcanion gwasanaethau ac amcanion ariannol, gan gynnwys gostyngiadau yn y gweithlu er mwyn helpu i gyrraedd targedau arbed costau. Yn ôl y Cyfarwyddwr Cyllid a Chyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Trefniadol ceir lefel dda o gydweithio rhyngddynt. Mae cynllun y gweithlu a datblygu trefniadol yn gyson â chynllun tair blynedd y Bwrdd Iechyd. O dan yr amcan i sicrhau gweithlu 'cynaliadwy', mae'r Bwrdd Iechyd yn symud tuag at gydymffurfio â Deddf Lefelau Staffio Nyrsys (Cymru). Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod staff yn deall gofynion y Ddeddf ac yn cydymffurfio â'r gofynion hynny. Derbyniodd y Bwrdd adroddiad ar y gweithlu nyrsio ym mis Mai 2018.

71 Yn olaf, buom yn ystyried a yw cynlluniau strategol a rhaglenni newid yn cael eu monitro'n effeithiol. Cafodd y strategaeth 10 mlynedd ei lansio yn 2015. Ym mis Medi 2015, derbyniodd y Pwyllgor SaCh asesiad o gynnydd y Bwrdd Iechyd yn erbyn y strategaeth 10 mlynedd, y deg amcan strategol a dangosyddion perfformiad lefel uchel. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod ei fod ychydig ar ei hôl hi yn rhai agweddau ar ei strategaeth 10 mlynedd.

72 Yn ddiweddar, lluniodd y Bwrdd Iechyd raglen drawsnewid i gefnogi gweithredu'r strategaeth 10 mlynedd. Ym mis Mawrth 2018, derbyniodd y Bwrdd bapur 'Datblygu Dull Caerdydd a'r Fro'. Mae'r papur yn disgrifio taith y Bwrdd Iechyd drwy newid hyd yma, ac yn cyflwyno ei raglen drawsnewid newydd. Mae'r hyn a ddysgwyd gan Fwrdd Iechyd Canterbury yn Seland Newydd wedi dylanwadu ar y rhaglen hon, sydd yn mabwysiadu ymagwedd amlddisgyblaeth sy'n seiliedig ar systemau cyfan. Mae'r Bwrdd a'r Pwyllgor SaCh wedi craffu ar y rhaglen newydd hon[7].

73 Yn ein hasesiad strwythuredig yn 2017, argymhellwyd y dylai'r Pwyllgor SaCh archwilio cynnydd yn rheolaidd o ran cyflawni'r Cynllun Gweithredu Blynyddol a'r CTCI Eleni, gwelsom fod y Pwyllgor SaCh yn derbyn adroddiadau cynnydd ar feysydd unigol yn y Cynllun Gweithredu Blynyddol a'r cynllun tair blynedd. Fodd bynnag, ni welsom unrhyw dystiolaeth fod y Pwyllgor SaCh yn derbyn crynodeb cyffredinol neu gyfunol o gynnydd yn erbyn cyflawniadau'r Cynllun Gweithredu Blynyddol. Mae'r Bwrdd yn derbyn y newyddion diweddaraf am ddatblygiad y CTCI, ond ni welsom unrhyw dystiolaeth fod y Bwrdd yn derbyn diweddariadau am gynnydd wrth gyflawni'r Cynllun Gweithredu Blynyddol.

[5] Gweler paragraffau 125 i 127

[6] Ceir mwy o fanylion am sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd ym mharagraffau 89 i 101

[7] Ymhelaethir ar y rhaglen hon ym mharagraffau 117 i 119

## Trefniadau ehangach sy'n cefnogi defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o adnoddau

74 Mae defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o adnoddau yn dibynnu ar drefniadau'r sefydliad ar gyfer rheoli ei weithlu, ei gyllid ac asedau ffisegol eraill. Yn yr adran hon, rydym yn cyflwyno sylwadau ar y trefniadau hynny ac ar y camau y mae'r Bwrdd Iechyd yn eu cymryd i gynyddu effeithlonrwydd a chynhyrchiant hyd yr eithaf. Byddwn yn archwilio a oes gan y Bwrdd Iechyd drefniadau da ar gyfer prynu nwyddau a gwasanaethau.

75 **Mae amrywiaeth eang o heriau o flaen y Bwrdd Iechyd wrth sicrhau defnydd effeithiol o'i adnoddau. Gan amlaf, mae'n cydnabod pa agweddau y mae angen iddo eu gwella ac yn ddiweddar lluniodd raglen drawsnewid er mwyn helpu i wella perfformiad ac effeithlonrwydd.**

### Rheoli'r gweithlu

76 Y gweithlu yw ased mwyaf y Bwrdd Iechyd ac mae cyflogau i gyfrif am gyfran sylweddol o'i wariant. Mae'n bwysig sicrhau bod y gweithlu yn gynhyrchiol ac wedi'i reoli'n dda, gan fod staff yn hollbwysig er mwyn cyflenwi gwasanaethau, ac er mwyn sicrhau arbedion effeithlonrwydd a gwella ansawdd. **Mae'r Bwrdd Iechyd yn ymwybodol o'i heriau o ran y gweithlu ac yn datblygu cynlluniau i ymdrin â'r heriau hynny, ond hyd yma y mae wedi methu mynd i'r afael â chynllunio swyddi meddygon ymgynghorol.**

77 Yn y tabl canlynol, dangosir perfformiad y Bwrdd Iechyd yng nghyswllt rhai mesuriadau allweddol, o gymharu â chyfartaledd Cymru. Yn Nangosyn 1 gwelir bod perfformiad y bwrdd iechyd yn gymysg.

Dangosyn 1: perfformiad yn erbyn mesurau allweddol y gweithlu[8]

| | Y Bwrdd Iechyd | Cyfartaledd Cymru |
|---|---|---|
| Absenoldeb oherwydd salwch | 5.1% | 5.3% |
| Trosiant | 9.8% | 6.9% |
| Swyddi Gwag | 3.2% | 2.6% |
| Arfarniadau | 61.0% | 67.0% |
| Hyfforddiant statudol a gorfodol | 75.0% | 73.0% |

Ffynhonnell: Dangosfwrdd Gweithlu GIG Cymru, Addysg a Gwella Iechyd Cymru,Gorffennaf 2018

78 Mae absenoldeb oherwydd salwch wedi cael effaith ariannol ar gyllidebau'r bwrdd iechyd, ee yr angen am staff asiantaeth a staff dros dro. Yn Nangosyn 1 gwelir bod cyfradd salwch y Bwrdd Iechyd ym mis Gorffennaf 2018 (5.1%) yn uwch nag yn 2017 (4.8%), er ei bod fymryn yn is na chyfartaledd Cymru (5.3%). Mae'r Bwrdd Iechyd yn cynllunio gwaith er mwyn cael dealltwriaeth well o absenoldeb salwch, yn enwedig tueddiadau absenoldeb salwch byrdymor, a'r gefnogaeth a ddarperir i staff sy'n absennol oherwydd salwch hirdymor. Mae'r Bwrdd Iechyd yn anelu i ostwng absenoldeb salwch i 4.6% yn 2018-19 ac i 4.2% yn 2020-21.


[8] Salwch: cyfartaledd dros gyfnod treigl o 12 mis ym mis Gorffennaf 2018; Trosiant: cyfnod o 12 mis o fis Gorffennaf 2017 hyd fis Mehefin 2018; Swyddi Gwag: yn seiliedig ar swyddi gwag a hysbysebwyd ym mis Gorffennaf 2018; Arfarnu: y 12 mis blaenorol ym mis Gorffennaf 2018; Hyfforddiant statudol a gorfodol: ym mis Gorffennaf 2018

79 Mae gan y Bwrdd Iechyd amryw o fentrau i leihau'r ddibyniaeth ar ddefnydd o staff meddygol a nyrsio dros dro ac asiantaeth. Yn 2017 rhoddodd y Bwrdd Iechyd y gorau i ddefnyddio staff asiantaeth oddi ar gontract, ac mae'n anelu i barhau â'r arfer hwnnw yn ystod 2018-19. Ym mis Gorffennaf 2018, roedd costau asiantaeth i gyfrif am 1.7% o'r cyfanswm bil cyflogau, sy'n isel o gymharu â gweddill Cymru (4%). Nod 'Prosiect 95' yw lleihau nifer y swyddi nyrsio gwag a'r gwariant ar asiantaeth drwy lenwi o leiaf 95% o swyddi parhaol. Mae hyn wedi helpu i leihau'r gyfradd o swyddi nyrsio gwag ym mand 5 a 6 o 8.6% yn 2016-17 i 6.8% yn 2017-18, ac wedi cyfrannu at ostyngiad yn y gwariant ar staff asiantaeth.

80 Fodd bynnag, ym mis Gorffennaf 2018, 3.2% oedd y gyfradd gyffredinol o swyddi gwag o fewn y Bwrdd Iechyd[9]. Mae hyn yn gyfwerth â 405 o swyddi gwag, yr oedd 205 ohonynt yn swyddi ym maes nyrsio a bydwreigiaeth. Mae cyfradd swyddi gwag gyffredinol y Bwrdd Iechyd yn uwch na chyfartaledd Cymru o 2.6%. Dyma'r gyfradd uchaf ond un hefyd o gymharu â'r byrddau iechyd eraill, ac y mae 0.6% yn uwch na'r un cyfnod y llynedd (Gorffennaf 2017).

81 Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod mai ond un ateb i heriau'r gweithlu yw recriwtio a chadw gweithwyr. Mae'n bosibl y bydd angen newid dyluniad a chyfansoddiad y gweithlu, a'r defnydd ohono, i'w wneud yn gynaliadwy. Mae cynllun y gweithlu a datblygu trefniadol yn amlinellu sut y bydd y Bwrdd Iechyd yn trawsnewid y gweithlu er mwyn gwireddu ei weledigaeth yn y strategaeth 10 mlynedd. Mae Dangosyn 2 yn crynhoi'r ymagwedd y mae'r Bwrdd Iechyd yn ei mabwysiadu yn ystod 2018-21.

Dangosyn 2: crynodeb o'r ymagwedd at drawsnewid y gweithlu 2018-21




Ffynhonnell: Cynllun Tymor Canolig Integredig Caerdydd a'r Fro 2018-21, strategaeth a chynllun cyflawni'r gweithlu a datblygu trefniadol. (Dim ond ferswin Saesneg sydd ar gael o'r dangosyn uchod.)

82 Yn 2016, aethom ar drywydd cynnydd yn erbyn ein hargymhellion o 2011 ynghylch cynllunio swyddi meddygon ymgynghorol. Gwelsom fod angen i'r Bwrdd Iechyd gael gwared ag arferion cynllunio swydd amrywiol. Canfu adolygiad Archwilio Mewnol mis Mai 2018 o drefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer cynllunio swyddi meddygon ymgynghorol nad oedd y trefniadau hynny'n rhoi rhyw lawer o sicrwydd. Mae gan y

[9]Dangosir cyfraddau swyddi gwag fel cyfran o'r staff cyfwerth ag amser llawn sydd mewn swydd.

Bwrdd Iechyd ganllawiau manwl, hyfforddiant a system ar gyfer cofnodi gweithgarwch craidd ar y cofnod staff electronig. Fodd bynnag, nid yw'r holl feddygon ymgynghorol yn cwblhau cynllun swydd yn flynyddol, sydd yn ofyniad craidd. Datgelwyd amryw o wendidau mewn sampl o gynlluniau swydd: ni ddefnyddiwyd y templed cynllunio swydd safonol; ni chydymffurfiwyd yn ddigonol â'r canllawiau; ni chytunwyd ar fesurau canlyniad, ac ni chafodd unrhyw fesurau canlyniad eu monitro; ac ychydig o'r cynlluniau swydd a adolygwyd oedd yn cynnwys y llofnodion gofynnol. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi creu cynllun gweithredu yn dilyn yr adolygiad archwilio mewnol ac mae archwiliad dilynol wedi'i drefnu yn fuan yn 2019.

83 Y targed ar gyfer cydymffurfio â chynlluniau swydd yw 85%, ond dim ond 50% oedd cyfradd gydymffurfio'r Bwrdd Iechyd ym mis Awst 2018. Ym mis Medi 2018, cynhaliodd y Pwyllgor SaCh drafodaeth ar hyn. Pwysleisiodd y ceid canlyniadau i feddygon ymgynghorol nad oedd ganddynt gynllun swydd, ac roedd angen ystyried hynny ochr yn ochr â thrwydded ymarfer meddyg ymgynghorol.

84 Mae strategaeth dysgu a datblygu'r Bwrdd Iechyd wedi'i chynnwys o dan y thema gweithlu medrus yng nghynllun y gweithlu a datblygu trefniadol. Cafwyd y cyfraddau canlynol o fewn y Bwrdd Iechyd ym mis Gorffennaf 2018:

- Cyfradd gyffredinol o 61% ar gyfer arfarniadau staff, sydd yn is na chyfartaledd Cymru (67%) a'r trydydd isaf o gymharu â chyrff iechyd eraill. Y targed cenedlaethol yw 85%.
- 75% oedd y gyfradd ar gyfer cydymffurfio â hyfforddiant gorfodol (hy, y fframwaith hyfforddi sgiliau craidd), sydd yn well na chyfartaledd Cymru o 73%. Y targed cenedlaethol yw 85%.

85 Mae gan y Bwrdd Iechyd gynlluniau i wella arfarniadau, cynllunio olyniaeth, arweinyddiaeth a hyfforddiant gorfodol statudol.

- **Arfarniadau staff** -bydd y broses arfarnu yn cynnwys sgyrsiau ehangach ac adroddiadau uniongyrchol ynghylch potensial a pherfformiad yr aelod staff. Mae'r tîm gweithredol wedi cymeradwyo'r cynllun hwn a'i gyflwyno gerbron y Pwyllgor SaCh ym mis Medi 2018, gan anelu i'w lansio yn nhymor y gwanwyn 2019.
- **Arweinyddiaeth** - bydd y Bwrdd Iechyd yn cynnal adolygiadau 180 gradd ar gyfer eu 70 o arweinwyr uchaf. Y nod yw sicrhau eu bod y deall eu harddull arwain, sut mae'n teimlo i weithio yn eu tîm a'r effaith y maent yn ei chael ar berfformiad y tîm. Bydd arweinwyr yn cael cefnogaeth i feddwl am wahanol arddulliau rheoli er mwyn gwella perfformiad, datblygiad a diwylliant y tîm.
- **Hyfforddiant statudol a gorfodol** - mae gan y Bwrdd Iechyd weithgor sydd wedi bod yn adolygu gofynion hyfforddi statudol a gorfodol ar gyfer gwahanol rolau. O fis Medi 2018, ni fydd staff ond yn cwblhau modelau hyfforddi sydd yn briodol i'w rôl, sy'n wahanol i'r trefniant blaenorol.

86 Un o saith thema'r rhaglen drawsnewid yw 'gwerthoedd ac ymddygiadau'. Ym mis Ionawr 2019, bydd y Bwrdd Iechyd yn lansio cyfres o ddigwyddiadau rhyngweithiol hygyrch er mwyn helpu i hyrwyddo ei werthoedd a'i ymddygiadau. Nod y Bwrdd Iechyd yw creu cyffro ar draws y sefydliad ynghylch ei werthoedd a'i ymddygiadau. Ar ôl i'r staff fod yn bresennol mewn digwyddiad, bydd gofyn iddynt wneud addewid, a gwahodd tri o bobl eraill i fod yn bresennol yn un o'r digwyddiadau.

87 Nid oedd canlyniadau arolwg staff GIG Cymru ar gael wrth inni gyflawni ein gwaith. Fodd bynnag, 21% oedd cyfradd ymateb y Bwrdd Iechyd o gymharu â 29% ledled Cymru. Mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu archwilio'r rhesymau wrth wraidd y gyfradd ymateb wael.

88 Mae rhaglen gwella costau (RhGC) trawsbynciol y Bwrdd Iechyd yn cynnwys tair thema yn gysylltiedig â'r gweithlu: cynhyrchiant nyrsys; cynhyrchiant meddygol; a chynhyrchiant y gweithlu. Ceir arweinydd gweithredol ar gyfer pob thema, sy'n bwydo gwybodaeth i'r Bwrdd Trawsbynciol, sydd yn adrodd yn uniongyrchol wrth y Pwyllgor Cyllid.

## Rheoli'r cyllid

89 Buom yn ystyried rheoli ariannol a chyllidebau, rheolaethau ariannol, a chefnogaeth a phrosesau gweithredol yn rhan o'n gwaith. **Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwella ei reolaeth ariannol ac yn anelu at sefyllfa gytbwys flynyddol erbyn 2020-21, ond mae'n dal yn rhagweld diffyg blynyddol sylweddol**.

90 Ar gyfer blwyddyn ariannol 2017-18, gweithredodd y Bwrdd Iechyd oddi mewn i'w derfyn adnoddau cyfalaf ar gyfer [10] y terfyn blynyddol a'r terfyn tair blynedd[11]. Fodd bynnag, parhaodd y Bwrdd Iechyd i fynd heibio ei derfynau gwariant blynyddol a theirblynyddol ar gyfer refeniw net. O ganlyniad i hynny, rhoddodd yr Archwilydd Cyffredinol farn amodol ynghylch rheoleidd-dra datganiadau ariannol blynyddol y Bwrdd Iechyd[12].

91 Ar gyfer 2017-18, adroddodd y Bwrdd Iechyd:

- ddiffyg o £26.8 miliwn yn erbyn terfyn adnoddau refeniw 2017-18 o £872.2 miliwn; a
- diffyg o £56 miliwn yn erbyn y cyfanswm terfyn adnoddau refeniw teirblynyddol o £2,585 miliwn (2015-16 hyd 2017-18).

92 Ar gyfer 2018-19, mae'r Bwrdd Iechyd yn disgwyl:

- gweithredu oddi mewn i'w derfynau adnoddau cyfalaf, fel y mae wedi gwneud yn y blynyddoedd diwethaf; a
- gwella ei sefyllfa flynyddol o ran refeniw, ond gan ragweld diffyg o £9.9 miliwn.

93 Mae'r diffyg o £9.9 miliwn a ragwelir gan y Bwrdd Iechyd yn rhoi cyfrif am y £10 miliwn o gyllid refeniw ychwanegol a gadarnhawyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf 2018. Rhoddodd Llywodraeth Cymru y cyllid ychwanegol hwn ar yr amod nad yw diffyg refeniw y Bwrdd Iechyd yn uwch na £9.9 miliwn. Fodd bynnag, dangosai'r ffurflen ariannol a gyflwynwyd gan y Bwrdd Iechyd i Lywodraeth Cymru fod ei wariant refeniw net £3,000 yn uwch na'r diffyg wedi'i broffilio. Ceir gwelliant amlwg wrth gymharu'r diffyg hwn â ffurflen ariannol y mis blaenorol, a ddangosai ddiffyg wedi'i broffilio o £492,000 ar 30 Tachwedd 2018.

94 Yn ein hasesiad strwythuredig yn 2017, canfuom fod gan y Bwrdd Iechyd drefniadau effeithiol er mwyn canfod arbedion a datblygu cynlluniau arbed ond nad oedd yn gallu sicrhau digon o arbedion i'w gosod yn erbyn pwysau ar gostau a diffyg ariannol cynyddol. Argymhellwyd y dylai RhGC y Bwrdd Iechyd ddefnyddio targedau arbed 'ymestyn' mwy uchelgeisiol ar gyfer gwasanaethau lle'r oedd modd sicrhau arbedion mwy. Dylai'r targedau hyn ddefnyddio gwybodaeth gymharol fel data meincnodi lle bo modd.

95 Ar gyfer 2018-19, defnyddiwyd yr un sail ar gyfer targedau RhGC y Bwrdd Iechyd ar gyfer yr holl fyrddau clinigol. Y sail honno oedd 1% o arbedion untro (cyfanswm o £8.445 miliwn) a 3% o arbedion cylchol (cyfanswm o £25.335 miliwn). Ar 30 Tachwedd 2018 (mis wyth), mae'r Bwrdd Iechyd £0.743 oddi ar gyrraedd ei darged o £33.780 miliwn yn RhGC 2018-19. Mae'r Bwrdd Iechyd yn adrodd:

- Bod £21.502 miliwn wedi'i nodi yn erbyn y targed cylchol o £25.335 miliwn, sydd yn ddiffyg o £3.833 miliwn; ac
- mae £11.536 miliwn wedi'i nodi yn erbyn y targed untro o £8.445 miliwn, sy'n golygu bod £3.091 miliwn yn fwy o arbedion wedi'u sicrhau na'r targed.

[10] Mae gwariant cyfalaf fel arfer yn golygu prynu neu wella asedau'r Bwrdd Iechyd. Prif asedau'r Bwrdd Iechyd yw ei dir a'i adeiladau, ei offer meddygol a'i TG.

[11] Fel sy'n ofynnol yn Neddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014. Mae'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd wario oddi mewn i derfynau ei ddyraniadau ariannol, a fesurir dros gyfnod ariannol treigl o dair blynedd.

[12] www.cynulliad.cymru

96 Mewn ymateb i'n hargymhelliad yn asesiad strwythuredig 2017, mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu newid y sail ar gyfer ei dargedau yn y RhGC o 2019-20, drwy:

- ddileu targedau untro yn y RhGC;
- pennu targed o 2% ar gyfer arbedion cylchol yn y RhGC, sy'n canolbwyntio ar arbedion effeithlonrwydd craidd; a
- chynnwys targed RhGC newydd o ddim mwy na 2%, yn seiliedig ar ddata meincnodi a newidiadau sylweddol i wasanaethau.

97 Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau rheoli a rheolaeth ariannol boddhaol. Mae hyn wedi galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i ardystio bod cyfrifon bob blwyddyn yn gywir a theg ym mhob ffordd berthnasol. Prif bwrpas y rhan hon o'n gwaith yw ystyried a yw cyfrifon blynyddol y Bwrdd Iechyd yn fanwl gywir ac yn cydymffurfio â'r safonau a'r egwyddorion cyfrifyddu gofynnol.

98 Ar y cyfan, mae'r Pwyllgor Cyllid yn derbyn adroddiadau ariannol sydd wedi'u trefnu'n dda ac yn llawn gwybodaeth. Fodd bynnag, mae'r dull o adrodd am arian yn 'draddodiadol', a'r adroddiadau wedi'u trefnu ar sail prif gategorïau'r cyfriflyfr ariannol, sef incwm, cyflogau a gwariant heblaw am gyflogau, llif arian a chynlluniau cyfalaf pwysig.

99 Mae'r Bwrdd Iechyd yn ceisio gwella ei ddealltwriaeth o weithgarwch a'i adroddiadau ar hynny, a'r ffactorau cysylltiedig sy'n ysgogi costau. Mae Prosiect Gweithredu System Gostio Cymru Gyfan (y prosiect costio) yn rheoli'r gwelliannau hyn. Mae'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio meddalwedd costio o'r enw Synergy. Fel arfer, bydd Synergy yn ymdrin â cheisiadau untro neu brosiectau penodol, yn hytrach na chreu adroddiadau rheolaidd sydd o gymorth wrth wneud penderfyniadau. Ar ben hynny, mae Synergy yn llunio Ffurflenni Costio Cymru y Bwrdd Iechyd ar gyfer Llywodraeth Cymru. Mae cyfyngiadau system Synergy yn golygu bod y broses hon yn anodd i'r Bwrdd Iechyd ac yn cymryd llawer o amser.

100 Bydd y prosiect costio yn cyflwyno meddalwedd newydd, PGC Monitoring, i ddisodli meddalwedd Synergy y Bwrdd Iechyd. Mae holl fyrddau iechyd Cymru yn gweithredu'r feddalwedd newydd hon, a deellir bod llawer o gyrff iechyd yn Lloegr yn defnyddio'r feddalwedd hefyd. Mae'r Bwrdd Iechyd a chyflenwr y feddalwedd yn cyflwyno ac yn profi'r feddalwedd newydd wrth barhau i ddefnyddio'r hen feddalwedd ar yr un pryd. Mae'r Bwrdd Iechyd yn disgwyl y bydd y feddalwedd newydd hon yn galluogi:

- dealltwriaeth gwell o gostau ac incwm;
- cymariaethau neu ddadansoddiadau gwell o gostau ac incwm yn fewnol, a chyda chyrff iechyd eraill; ac yn sgil hynny
- defnydd gwell o adnoddau fydd o gymorth i sicrhau sefyllfa ariannol gytbwys.

101 Er gwaethaf pwysigrwydd y prosiect costio, sydd yn hollbwysig er mwyn gwella sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd, deellir nad yw'r Bwrdd wedi derbyn briff na diweddariad ar amcanion, budd na chynnydd y prosiect.

## Y Fenter Twyll Genedlaethol (NFI)

102 Buom yn ystyried pa mor effeithiol yr oedd y Bwrdd Iechyd yn mynd ati i ystyried twyll posibl a amlygwyd drwy'r Fenter Twyll Genedlaethol. **Bu'r ymchwiliad i achosion posibl o dwyll, a amlygwyd yn ymarfer diweddaraf y Fenter Twyll Genedlaethol, yn annigonol.**

103 Bob dwy flynedd, bydd y Fenter Twyll Genedlaethol (NFI) yn defnyddio ymarfer paru data er mwyn helpu i ganfod twyll a gordaliadau drwy baru data ar draws sefydliadau a systemau. Mae'n offeryn effeithiol sy'n galluogi cyrff cyhoeddus i gryfhau eu trefniadau i atal twyll a llygredd.

104 Drwy'r ymarfer diwethaf ym mis Ionawr 2017, cafodd y Bwrdd Iechyd 9,980 o barau data, sy'n amlygu anghysondebau i'w hadolygu. Ni fyddem yn disgwyl i'r Bwrdd Iechyd adolygu'r holl barau data. Argymhellwn y dylid rhoi'r flaenoriaeth i'r parau a ystyrir yn barau risg uchel gan yr NFI, a elwir yn 'barau a argymhellir'.

105 Derbyniodd y Bwrdd Iechyd 851 o barau a argymhellir. Dyma fu cynnydd y Bwrdd Iechyd:

- Tachwedd 2017 - adolygu 11 o barau data a argymhellir (1.3%).
- Tachwedd 2018 - adolygu 448 o barau data a argymhellir (53%).

106 Er gwaethaf y cynnydd hwn, mae'r Bwrdd Iechyd yn dal heb wneud defnydd effeithiol o'r NFI. Dyma rai o'n pryderon:

- Methiant i adolygu parau data tair ffordd rhwng yr adran gyflogau, taliadau credydwyr a Thŷ'r Cwmnïau. Mae'r rhain yn barau risg uchel am eu bod yn gallu adnabod buddiannau sydd heb eu datgan gan y staff, ac arferion posibl yn gysylltiedig â llygredd.
- Bu'r Bwrdd Iechyd yn adolygu dau bar rhwng yr adran gyflogau a data mewnfudo'r Swyddfa Gartref, ond ni chofnododd y canlyniad. Gan hynny, nid yw'n glir a yw pryderon ynghylch statws mewnfudo aelodau staff wedi'u datrys.
- Gall parau o daliadau ar gyfer credydwyr risg uchel gynrychioli taliadau dyblyg. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi adolygu rhai o'r rhain, ac roedd pob un ohonynt yn ordaliadau. Roedd y Bwrdd Iechyd eisoes wedi nodi ac adennill y rhain. Rydym yn pryderu nad yw'r Bwrdd Iechyd wedi adolygu'r holl barau hynny, ac nad oes ganddo ddull cadarn o atal taliadau dyblyg.
- Derbyniodd y Bwrdd Iechyd barau rhwng cyfeiriadau staff a chyflenwyr. Hefyd, rhwng manylion banc staff a chyflenwyr. Gall y naill a'r llall fod o gymorth i ganfod buddiannau heb eu datgan gan y staff yng nghyflenwyr y Bwrdd Iechyd. Ar gyfer:
    - Cyfeiriadau staff a chyflenwyr - cofnododd y Bwrdd Iechyd 'dim problem' ar gyfer yr holl barau, ond nid yw wedi esbonio ar raglen we'r NFI sut y daeth i'r penderfyniad hwnnw.
    - Manylion banc staff a chyflenwyr - nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi adolygu yr un o'r parau data hyn.

## Caffael

107 Buom yn ystyried pa mor dda yw'r Bwrdd Iechyd am gaffael y nwyddau a'r gwasanaethau sydd eu hangen er mwyn gweithredu. **Mae'r Bwrdd Iechyd wedi buddsoddi mewn caffael, ac mae ganddo gynlluniau caffael manwl a threfniadau effeithiol i fonitro gweithgarwch a gwariant caffael.**

108 Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru - y Gwasanaeth Caffael (PCGC - Gwasanaeth Caffael) sydd yn rheoli'r rhan fwyaf o waith caffael y Bwrdd Iechyd. Y Cyfarwyddwr Cyllid yw'r arweinydd gweithredol ar gyfer caffael. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi darparu staff ychwanegol ar gyfer y tîm caffael, a reolir gan PCGC - y Gwasanaeth Caffael. Mae'r Pennaeth Caffael yn rheoli'r 22 o aelodau staff o fewn y tîm. Mae'r tîm wedi'i drefnu'n dda a'i integreiddio'n dda â'r byrddau clinigol. Mae gan bob bwrdd clinigol weinyddwr a rheolwr busnes caffael. Rhennir gweddill y tîm caffael rhwng rheoli contractau (contractau newydd, presennol ac

adnewyddiadau) a nodi anghenion caffael. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi darparu nyrs gaffael, sy'n canolbwyntio ar sicrhau effeithlonrwydd drwy adnabod tueddiadau ar lefel y ward.

109 Ceir Strategaeth Gaffael i Gymru gyfan, ac mae honno wedi'i seilio ar gynllun busnes Cymru gyfan. Ceir cytundeb lefel gwasanaeth rhwng PCGC - Gwasanaeth Caffael a'r Bwrdd Iechyd. Ar ben hynny, bob blwyddyn bydd y Pennaeth Caffael yn datblygu dogfen amlinellu prosiect (DAP_ penodol i'r Bwrdd Iechyd. Mae'r DAP, y cytunir arno â'r Cyfarwyddwr Cyllid, yn nodi'r cyflawniadau caffael a'r amcanion blynyddol lleol. Dyma'r rheiny ar gyfer 2018-19:

- cymhwyso disgyblaeth gaffael er mwyn lleihau gwariant ar gaffael yn ystod 2018-19;
- cynorthwyo'r byrddau clinigol i nodi cynlluniau newydd nad [13] ydynt yn gysylltiedig â chyflogau a buddion effeithlonrwydd yn ystod 2018-19 a 2019-20;
- gwella gallu caffael y byrddau clinigol er mwyn lleihau gwariant nad yw'n gysylltiedig â chyflogau;
- monitro cyflawniad cynlluniau'r byrddau clinigol ar gyfer 2018-19 nad ydynt yn gysylltiedig â chyflogau; a
- chyflawni'r cynllun ymgysylltu caffael lleol a chyfrifoldebau caffael.

110 Bydd y Cyfarwyddwr Cyllid a'r Pennaeth Caffael yn cyfarfod bob is i adolygu cynnydd wrth gyflawni'r DAP. Yn ogystal â hynny, bydd yr holl fyrddau clinigol yn cyfarfod bob mis â'u rheolwyr busnes cyllid a chaffael i adolygu eu dangosfyrddau perfformiad cyllid a chaffael. Mae'r dangosfyrddau yn amlygu cynnydd yn erbyn cynlluniau a risgiau i gyflawni.

111 Gweithredodd y Bwrdd Iechyd bolisi 'dim archeb, dim tâl' Cymru gyfan o 1 Mehefin 2018. Bydd y Pwyllgor Cyllid yn derbyn y newyddion diweddaraf bob mis am gydymffurfiaeth y Bwrdd Iechyd â pholisi taliadau'r sector cyhoeddus. Mae'r tîm caffael yn cadw cofrestr risg caffael, sydd fel arfer yn porthi'r FfSRC[14] ar lefel uwch. Adroddir wrth y Pwyllgor Archwilio am risgiau sylweddol yn gysylltiedig â chaffael.

112 Mae caffael yn thema drawsbynciol yn RhGC y Bwrdd Iechyd. Bydd y Pennaeth Caffael yn adrodd wrth y Bwrdd Trawsbynciol, ac wedyn wrth y Pwyllgor Cyllid. Yn 2017-18, gwnaeth y Bwrdd Iechyd gynnydd da yn erbyn ei darged o £2 filiwn ar gyfer arbedion trawsbynciol. Cadwyd y targed hwn ar gyfer 2018-19.

## Perfformiad, effeithlonrwydd a chynhyrchiant

113 Buom yn edrych ar yr hyn y mae'r Bwrdd Iechyd yn ei wneud i wella perfformiad, effeithlonrwydd a chynhyrchiant gwasanaethau. **Er gwaethaf gwelliannau, mae rhai targedau gweithgarwch yn parhau i fod yn heriol, ac mae'r Bwrdd Iechyd wedi sefydlu rhaglen drawsnewid er mwyn helpu i wella perfformiad ac effeithlonrwydd.**

114 Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i weithio mewn amgylchedd heriol ac yn cydnabod pa agweddau ar berfformiad y mae angen iddo eu gwella. Adlewyrchir hyn yn ei gynlluniau strategol a thrawsnewidiol.

115 Yn Nangosyn 3 ceir sylwebaeth ar berfformiad y Bwrdd Iechyd yn erbyn rhai mesurau allweddol ar gyfer amseroedd aros.

[13] Mae gwariant ar wahân i gyflogau yn golygu gwariant ar agweddau eraill ar wahân i'r staff, fel offer a TG.

[14] Mae gennym bryderon sylweddol ynghylch Fframwaith Risg a Sicrwydd Corfforaethol y Bwrdd Iechyd, gweler paragraffau 28 i 37.

Dangosyn 3: perfformiad yn erbyn targedau amseroedd aros allweddol

| Maes perfformiad | Perfformiad y bwrdd iechyd |
|---|---|
| Amseroedd aros diagnosteg a therapïau | O gymharu â dwy flynedd yn ôl, mae canran lai o gleifion bellach yn aros mwy nag wyth wythnos am wasanaethau diagnosteg.<br>• Y targed cenedlaethol yw na ddylai yr un claf aros mwy nag wyth wythnos.<br>• Ym mis Ebrill 2016, roedd 27% o gleifion yn y Bwrdd Iechyd yn aros mwy nag wyth wythnos (cyfartaledd Cymru oedd 16%)<br>• Ym mis Mai 2018, roedd 6% o gleifion yn y Bwrdd Iechyd yn aros mwy nag wyth wythnos (cyfartaledd Cymru oedd 6%) |
| Amser atgyfeirio i driniaeth | Y targed cenedlaethol yw na ddylai yr un claf aros mwy na 36 wythnos o'r atgyfeiriad hyd at y driniaeth. Nid yw'r Bwrdd Iechyd yn cyrraedd y targed hwn, (yn debyg i weddill Cymru). Fodd bynnag, mae'r Bwrdd Iechyd yn gyson yn perfformio'n well na chyfartaledd Cymru.<br>Mae'r Bwrdd Iechyd yn rheoli perfformiad dros gyfnod o 3 mis. Mae hyn yn golygu bod nifer y cleifion sy'n aros dros 36 wythnos mewn unrhyw gyfnod o 3 mis yn cael ei ostwng mor agos a sero ag sy'n bosibl.<br>Ers mis Mawrth 2017, mae cyfran y cleifion sy'n aros dros 36 wythnos wedi cael ei gostwng yn gyson i 1%. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i sicrhau gwelliant yn erbyn y targed hwn am 13 cyfnod olynol o 3 mis.<br>Er bod hyn yn gadarnhaol, mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod angen iddo bellach symud tuag at reoli'r targed hwn ar sail cylch misol. |
| | Y targed ar gyfer canran y cleifion sy'n aros llai na 26 wythnos o atgyfeirio i driniaeth yw 95%. Nid yw'r Bwrdd Iechyd yn cyrraedd y targed hwn, (yn debyg i weddill Cymru). Mae'r Bwrdd Iechyd yn perfformio'n waeth na chyfartaledd Cymru, ac nid yw wedi gweld rhyw lawer o welliant yn erbyn y targed hwn dros y ddwy flynedd nesaf, gyda pherfformiad yn parhau o amgylch 85%. |
| Amseroedd trosglwyddo o ambiwlans | Nod y targed hwn yw lleihau amseroedd trosglwyddo o ambiwlans. Mae'n mesur canran y cleifion a drosglwyddwyd cyn pen 15 munud ar ôl hysbysu bod yr ambiwlans wedi cyrraedd adrannau Damweiniau ac Achosion Brys mawr.<br>Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, bu perfformiad y Bwrdd Iechyd yn waeth ar y cyfan na chyfartaledd Cymru. Ym mis Awst 2017, trosglwyddwyd 65% o gleifion cyn pen 15 munud. Cafwyd dirywiad wedi hynny mewn perfformiad, gan gyrraedd y ganran isaf o 35% ym mis Chwefror 2018.<br>Mae hyn yn adlewyrchu tuedd i berfformiad ostwng yn genedlaethol. |
| Arosiadau mewn Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys | Dylai o leiaf 95% o gleifion sy'n mynd i Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys aros llai na phedair awr. Nid yw'r Bwrdd Iechyd yn cyrraedd y targed hwn, (yn debyg i Gymru). Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, bu perfformiad y Bwrdd Iechyd yn well na chyfartaledd Cymru ar y cyfan.<br>Cafwyd y perfformiad gwaethaf ym mis Chwefror 2018 (76%). Ers hynny, mae perfformiad wedi tueddu i wella, a llwyddodd y Bwrdd Iechyd i gyrraedd 91% ym mis Mehefin 2018. |

| Maes perfformiad | Perfformiad y bwrdd iechyd |
|---|---|
| | Ni ddylai yr un claf aros mwy na 12 awr mewn Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys. Mae'r Bwrdd Iechyd yn perfformio'n well na chyfartaledd Cymru yn erbyn y targed hwn. Cyrhaeddodd y Bwrdd Iechyd y targed hwn am 17 mis yn y 28 o fisoedd rhwng mis Ebrill 2016 a mis Gorffennaf 2018. |
| Amseroedd trin canser | Ar gyfer achosion canser nad ydynt yn rhai brys, dylai o leiaf 98% o gleifion ddechrau triniaeth cyn pen 31 ar ôl derbyn diagnosis. Mae perfformiad y Bwrdd Iechyd yn amrywio. Cyrhaeddodd y Bwrdd Iechyd y targed hwn am 19 mis yn y 27 o fisoedd rhwng mis Ebrill 2016 a mis Mehefin 2018. |
| | Ar gyfer achosion brys lle amheuir canser, dylai 95% o gleifion â chanser ddechrau derbyn triniaeth swyddogol cyn pen 62 ar ôl atgyfeirio.<br>Nid yw'r Bwrdd Iechyd ond wedi cyrraedd y targed hwn mewn 2 fis yn y 27 o fisoedd rhwng mis Ebrill 2017 a mis Mehefin 2018. Mae perfformiad y Bwrdd Iechyd yn amrywio o amgylch cyfartaledd Cymru. |
| Oedi wrth drosglwyddo gofal (OwDG) | Ar draws Cymru, cafwyd gostyngiad o 6% yng nghyfanswm yr achosion o OwDG rhwng 2016-17 a 2017-18.<br>Dros yr un cyfnod yn y Bwrdd Iechyd, gwelwyd gostyngiad o 27% mewn achosion o OwDG.<br>Yn ystod 2017-18, profodd 2732 o gleifion ledled Cymru oedi o bedair wythnos neu fwy. O fewn y Bwrdd Iechyd, profodd 530 o gleifion oedi o'r hyd hwn. Mae hyn yn cynrychioli 19% o gyfanswm Cymru. |
| Hyd arosiadau | Mae hyd arosiadau wedi gwaethygu ers mis Ebrill 2016. Ym mis Mai 2018, roedd hyd arosiadau'r Bwrdd Iechyd [15]ddiwrnod yn hwy na chyfartaledd Cymru o 10.5 o ddiwrnodiau. |
| Apwyntiadau cleifion allanol | Cafwyd perfformiad statig rhwng 2015-16 a 2016-17:<br>• Ni ddaeth 10% o gleifion newydd i apwyntiad claf allanol newydd.<br>• Ni ddaeth 11% o gleifion i apwyntiad dilynol i glaf allanol.<br>Y targed ar gyfer y ddau fesuriad yw dangos gostyngiad dros gyfnod o 12 mis.<br>Yn ddiweddar, cyhoeddwyd adroddiad gennym ar reoli apwyntiadau dilynol i gleifion allanol ledled Cymru. Gwelsom fod gan y Bwrdd Iechyd y nifer fwyaf o apwyntiadau dilynol i gleifion allanol a oedd wedi wynebu dwywaith gymaint o oedi ag y dylent fod wedi gwneud. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu proses i ddidoli cleifion ar sail angen clinigol. |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata Bwrdd Iechyd, fel yr adroddwyd wrth Lywodraeth Cymru

[15] Hyd arhosiad cyfartalog (diwrnodiau) 12 mis treigl yn achos derbyniadau brys ar gyfer meddygaeth gyfunol.

116 Mae strategaeth 10 mlynedd y Bwrdd Iechyd yn seiliedig ar amryw o egwyddorion dylunio, sydd wedi'u halinio ag egwyddorion gofal iechyd darbodus. Mae'r rhain yn canolbwyntio ar y canlynol:

- grymuso'r unigolyn;
- 'y Cartref yn Gyntaf';
- sicrhau deilliannau sydd o bwys i bobl;
- osgoi unrhyw amrywio na ellir ei gyfiawnhau; a
- lleihau niwed a gwastraff.

117 Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio i ymwreiddio egwyddorion gofal iechyd darbodus a gofal iechyd sy'n seiliedig ar werthoedd, er nad yw efallai'n defnyddio'r termau hynny. Mae'r Cyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus a'r Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol yn cyd-arwain y maes hwn. Yn ei CGB ar gyfer 2018-19, mae blaenoriaethau'r Bwrdd Iechyd yn pwysleisio'r angen i wella effeithlonrwydd a chynhyrchiant. Mae'r gwelliannau hyn yn cynnwys integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol a datblygu ei raglen drawsnewid a'i amseroedd aros ar gyfer triniaethau canser. Nod rhaglen drawsnewid y Bwrdd Iechyd a gyflwynwyd yn ddiweddar yw cyflymu cyflawniad ei strategaeth 10 mlynedd a'i gynorthwyo i weithio'n effeithlon. bwriedir i'r rhaglen wella perfformiad gwasanaethau, ond dengys y mesurau amser aros a nodir yn Nangosyn 3 fod angen gwella perfformiad ar frys.

118 Yn Nangosyn 4 gwelir pedwar o gyflawniadau allweddol y rhaglen a saith cyfrwng cefnogol. Ar hyn o bryd, mae'r rhaglen yn cynnwys 10 o brosiectau.

Dangosyn 4: Cyflawniadau a chyfryngau allweddol o raglen drawsnewid y Bwrdd Iechyd

| Pedwar cyflawniad allweddol | Saith cyfrwng cefnogol allweddol |
|---|---|
| • Lleihau apwyntiadau dilynol i gleifion allanol ar safleoedd ysbyty.<br>• Lleihau hyd arosiadau.<br>• Lleihau niwed, gwastraff ac amrywio diangen.<br>• Gwneud defnydd mwy effeithlon o theatrau a gwella cynhyrchiant. | • Sicrhau dull a methodoleg llwybr.<br>• Sicrhau rhaglen newydd o wybodaeth hygyrch i staff clinigol (gan gynnwys y platfform angenrheidiol) i ysgogi gwelliannau.<br>• Adolygu'r rhaglen er mwyn sicrhau sefydliad a gweithlu sydd wedi'u galluogi'n ddigidol.<br>• Datblygu ymagwedd Cynghrair Caerdydd a'r Fro sydd yn integreiddio â sefydliadau partner.<br>• Datblygu 'ymagwedd Caerdydd a'r Fro' at reolaeth ac arweinyddiaeth (gan gynnwys y gynghrair partneriaeth dysgu â Canterbury) a fydd yn cefnogi newid diwylliant ac yn cynyddu galluogrwydd a chapasiti.<br>• Sicrhau'r model ar gyfer gofal sylfaenol er mwyn ysgogi ymagwedd ar gyfer y system sy'n seiliedig ar ddeilliannau'r boblogaeth, gan alluogi cynaliadwyedd meddygaeth gyffredinol.<br>• Ymwreiddio gwerthoedd ac ymddygiadau ein gweledigaeth (fel y cawsant eu cyfleu yn y Strategaeth Siapio Ein Llesiant i'r Dyfodol). |

Ffynhonnell: Papur diweddaru ar drawsnewid wedi'i dderbyn gan y Bwrdd ym mis Gorffennaf 2018.

.

119 Ym mis Hydref 2018, gadawodd y Cyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus ei rôl er mwyn camu i rôl y Cyfarwyddwr Gwybodeg, Comisiynu, Arloesi a Thrawsnewid. Mae'r Bwrdd Iechyd yn recriwtio Pennaeth Trawsnewid Gweithredol. Ond ar wahân i hynny, y mae'n adrodd bod ganddo ddigon o adnoddau ar gyfer ei raglen drawsnewid. Mae'r rhaglen yn defnyddio adnoddau sy'n bodoli eisoes fel y swyddfa rheoli rhaglenni, y tîm gwella parhaus, a thimau eraill fel timau cyllid a'r gweithlu. Mae gan y Bwrdd Iechyd gyllideb fechan i recriwtio staff a chanddynt ddiddordeb ac sydd ar gael i brosiectau penodol. Yn ogystal â hynny mae 520 o staff y Bwrdd Iechyd wedi'u derbyn hyfforddiant ar raglen Arwain Gwelliannau ym maes Diogelwch Cleifion ac ar egwyddorion di-wastraff. Fodd bynnag, ni wneir defnydd digonol ohonynt. Mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu defnyddio'r aelodau hyn o staff i ddatblygu rhwydwaith o hyrwyddwyr trawsnewid.

## Defnyddio gwybodeg i gefnogi darpariaeth gwasanaeth

120 Buom yn asesu'r graddau y mae trefniadau'r Bwrdd Iechyd yn cefnogi darpariaeth gwasanaeth gyda technoleg. **Ni cheir buddsoddiad na threfniadau llywodraethu realistig i gyd-fynd ag ymagwedd strategol y Bwrdd Iechyd at wybodeg, ac mae hynny'n creu rhai risgiau.**

121 Mae gan y Bwrdd Iechyd Raglen Amlinellol Strategol 5 mlynedd ar gyfer gwybodeg, y cytunwyd arni yn 2016. Mae'r rhaglen hon yn nodi'r gwelliannau o ran gwasanaethau rheoli gwybodaeth a thechnoleg gwybodaeth a fydd yn helpu i gyflawni amcanion strategol y Bwrdd Iechyd. Mae'r rhaglen bellach yn cael ei hailysgrifennu ar ffurf strategaeth ddigidol, sy'n gyson â blaenoriaethau'r Bwrdd Iechyd a'r gyllideb sydd ar gael iddo.

122 Ceir bellach Bennaeth Gwybodaeth Ddigidol ac Iechyd, sy'n gyfrifol am fwrw ymlaen â gwaith trawsnewid digidol yn 2019. Mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu ailystyried y RhAS a threfnu prosiectau digidol yn ôl blaenoriaeth mewn strategaeth trawsnewid digidol gymeradwy yn fuan yn 2019. Yn fuan yn 2019, mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn bwriadu cwblhau adolygiad o strwythur a threfniadau llywodraethu ei swyddogaethau gwybodaeth a thechnoleg gwybodaeth er mwyn cynorthwyo i gyflawni ei ymagwedd ddigidol strategol. Y nod yw cyfuno gwybodaeth a thechnoleg gwybodaeth er mwyn rhwyddhau cyflawniad y rhaglen trawsnewid digidol. Mae strwythurau llywodraethu a rheoli prosiect ar gyfer rhaglen drawsnewid ehangach y Bwrdd Iechyd yn cael eu datblygu ar hyn o bryd. Bydd angen i'r rhain gynnwys trefniadau ar gyfer goruchwylio agweddau digidol y rhaglen drawsnewid.

123 Gallai technoleg ddigidol wella cynhyrchiant a sicrhau arbedion effeithlonrwydd. Er enghraifft: moderneiddio diagnosteg; gofal wedi'i alluogi drwy dechnoleg; ac e-fferylliaeth. Fodd bynnag, mae llwyddiant y prosiectau hyn yn ddibynnol ar gael seilwaith TG modern a chydnerth o fewn y Bwrdd Iechyd. Cwblhawyd gwaith uwchraddio seilwaith a thechnoleg TG o fewn y Bwrdd Iechyd yn 2017-18. Fodd bynnag, ceir cyfyngu ar adnoddau o hyd, a allai gyfyngu ar y modd y mae TG yn cefnogi'r broses o newid gwasanaethau. Gallai hefyd achosi risgiau o ran parhad a chydnerthedd busnes gan fod y seilwaith TG yn heneiddio.

124 Y ogystal â hynny, ceir sawl risg leol sy'n deillio o systemau TG cenedlaethol a reolir drwy Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (GGGC). Er enghraifft:

- System Rheoli Gwybodaeth Labordai Cymru.
- Amryw o achosion difrifol lle cafwyd tarfu ar systemau TG cenedlaethol yn 2018, gan arwain at golli gwasanaeth.
- Oedi wrth weithredu'r rhaglen systemau TG genedlaethol yn 2018. Er enghraifft, gallai oedi wrth weithredu System Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru fod wedi amharu ar ddibynadwyedd ac argaeledd gwasanaethau TG ar draws iechyd a gofal cymdeithasol.

## Rheoli'r ystâd ac asedau eraill ffisegol

125 Buom yn ystyried y modd y mae'r Bwrdd Iechyd yn rheoli ei ystadau ac asedau eraill ffisegol. **Mae strategaethau rheoli asedau wedi'u datblygu i raddau amrywiol, a gellid bod angen goruchwyliaeth gorfforaethol gryfach dros amryw o risgiau'n gysylltiedig ag asedau.**

126 Ar y cyfan, mae polisïau a gweithdrefnau'r Bwrdd Iechyd yn gysylltiedig ag asedau yn gynhwysfawr, yn gyfredol ac yn hygyrch drwy ei fewnrwyd. Nid oes gan y Bwrdd Iechyd strategaeth gyffredinol ar gyfer rheoli asedau. Yn hytrach, mae ganddo amryw o strategaethau ar wahân wedi'u datblygu i wahanol raddau. Buom yn adolygu strategaethau rheoli asedau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer ystadau, cyfarpar meddygol a TG. Canfuom y canlynol mewn perthynas â'r Bwrdd Iechyd:

- Mae ganddo ddrafft o strategaeth ystadau 10 mlynedd ar gyfer 2018-28, a ystyriwyd gan y Bwrdd ym mis Medi 2018.
- Nid oes ganddo strategaeth gyfredol ar gyfer rheoli cyfarpar meddygol, er bod drafft cynnar yn bodoli.
- Datblygodd Raglen Amlinellol Strategol (RhAS) ar gyfer Gwybodeg ar gyfer 2016-2021. Yn 2017, adroddwyd nad oedd y Bwrdd Iechyd wedi blaenoriaethu'r swm llawn o gyllid cyfalaf a refeniw ar gyfer y RhAS.

127 Mae'r Bwrdd Iechyd yn wynebu amryw o risgiau yn gysylltiedig ag asedau:

- Ôl-groniadau mawr o gostau cynnal a chadw ar gyfer ei ystâd. Ar adeg ein harchwiliad, roedd gwerth £130 miliwn o gostau wedi ôl-gronni. Roedd yr ôl-groniad hwn yn cynnwys £24 miliwn o gostau uchel eu blaenoriaeth, gostyngiad o £2 filiwn o gymharu â'r llynedd. Mae'r ôl-groniad mawr o waith cynnal a chadw yn achosi risg am ei fod yn gwyro cyllid oddi wrth waith cynnal a chadw rhagweithiol tuag at waith cynnal a chadw ymatebol.
- Mae'r adran TG wedi nodi amryw o risgiau pwysig, fel: effaith methiannau systemau TG cenedlaethol ar ddarpariaeth gofal iechyd yn lleol; bygythiadau seiberddiogelwch yn achosi risg i barhad gwasanaethau; Oedi wrth weithredu yn gysylltiedig â GGGC; a diffyg capasiti i gyflawni prosiectau newydd ar yr un pryd â pharhau i gynnal busnes fel arfer.
- Ym mis Mehefin, cyhoeddwyd ein hadroddiad Adolygiad o Offer Meddygol: Diweddariad ar Gynnydd. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r newyddion diweddaraf am gynnydd yn erbyn ein hargymhellion o 2013, ac nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi mynd i'r afael â'r rhan fwyaf o'r argymhellion hynny. Yn ein hadroddiad yn 2018, nodwyd wyth o argymhellion pellach a ystyrir yn hollbwysig gennym er mwyn gwella trefniadau'r Bwrdd Iechyd i oruchwylio a rheoli offer meddygol.

Bu trefniadau'r Bwrdd Iechyd i reoli rhai o'r risgiau corfforaethol hyn yn wan, a hynny'n rhannol gan nad oes cofrestr risg gorfforaethol gyfredol ac ystyrlon[16].

[16]Cyfeiriwyd at hyn mewn adran flaenorol o'r adroddiad, gweler paragraffau 28 i 37

# Argymhellion

128 Eleni, rydym wedi nodi rhai meysydd i'w gwella a nodwyd mewn gwaith blaenorol ar asesiadau strwythuredig. Mae'n bwysig i'r Bwrdd Iechyd fynd ati'n gyflym i ymdrin â'n hargymhellion blaenorol. Nodir ein hargymhellion ar gyfer 2018 yn Nangosyn 1.

Dangosyn 5: argymhellion 2018

| argymhellion 2018 |
|---|
| **argymhellion 2017**<br>A1 Dylai'r Bwrdd Iechyd gwblhau ein hargymhellion o asesiad strwythuredig 2017 erbyn diwedd 2019. |
| **Tracio argymhellion archwilio**<br>A2 Dylai'r Bwrdd Iechyd wella'i drefniadau ar gyfer tracio argymhellion drwy:<br>a. mynd i'r afael â'r argymhellion sy'n weddill o asesiad strwythuredig 2016 er mwyn cryfhau'r trefniadau ar gyfer tracio argymhellion archwilio allanol;<br>b. gan gynnwys tracio argymhellion archwilio mewnol; a<br>c. chwblhau adolygiad o'r holl argymhellion archwilio mewnol ac allanol sy'n weddill ac adrodd y canfyddiadau wrth y Pwyllgor Archwilio. |
| **Llywodraethu**<br>A3 Dylai'r Bwrdd Iechyd:<br>a. Diweddaru'r Cynllun Dirprwyo i adlewyrchu'r cyfrifoldeb sydd wedi'i ddirprwyo dros gyfrifo lefelau staffio nyrsys ar gyfer wardiau meddygol a llawfeddygol acíwt i gleifion mewnol;<br>b. Adolygu a diweddaru'r Rheolau Sefydlog a'r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog, gan sicrhau bod y dogfennau hyn yn cael eu hadolygu a'u cymeradwyo'n flynyddol;<br>c. Gwella fformat y cofrestrau ar gyfer datgan buddiannau a rhoddion, lletygarwch a nawdd a chadarnhau pa mor aml y cyflwynir y cofrestrau gerbron y Pwyllgor Archwilio;<br>d. Sicrhau bod y tîm llywodraethu yn rheoli gwaith i adnewyddu polisïau a dylunio proses er mwyn sicrhau bod adolygiadau polisi yn parhau i fod yn gyfredol;<br>e. Adolygu cylchoedd gorchwyl yr holl bwyllgorau er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol, na cheir unrhyw orgyffwrdd rhyngddynt a'u bod yn cael eu hadolygu'n flynyddol; a<br>f. Sicrhau bod gan yr holl bwyllgorau raglen waith gyfredol sy'n gysylltiedig â chylch cyfarfodydd y Bwrdd, ac a adolygir yn flynyddol. |
| **Rheoli perfformiad**<br>A4 Dylai'r Bwrdd Iechyd ddiweddaru ei fframwaith rheoli perfformiad i adlewyrchu'r newidiadau trefniadol a gyflwynwyd i'r sefydliad ers 2013. |
| **Rheoli ariannol**<br>A5 Dylai'r Bwrdd Iechyd gyflwyno'r newyddion diweddaraf am gynnydd wrth brofi a chyflawni Prosiect Gweithredu System Gostio Cymru Gyfan gerbron y Pwyllgor Cyllid, neu'r Bwrdd.<br>A6 Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod yr holl barau a argymhellir o ymarfer nesaf yr NFI ym mis Ionawr 2019 yn cael eu hadolygu, a bod ymchwiliad prydlon yn cael ei gynnal iddynt lle bo angen. |

| argymhellion 2018 | |
|---|---|
| | |
| **Llywodraethu Gwybodaeth** | |
| A7 | Dylai'r Bwrdd Iechyd gwblhau'r camau gweithredu sy'n weddill o adolygiad Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG) o drefniadau diogelu data'r Bwrdd Iechyd yn 2016. |
| A8 | Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau cydymffurfiaeth lawn â'r Gofyniad Diogelu Data Cyffredinol erbyn mis Mai 2019. |
| A9 | Dylai'r Bwrdd Iechyd wella ei amseroedd ymateb i geisiadau am wybodaeth yn sgil y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a Cheisiadau Mynediad Testun Diogelu Data. |
| **Technoleg Gwybodaeth** | |
| A10 | Dylai'r Bwrdd Iechyd gwblhau adolygiad o strwythur a threfniadau llywodraethu ei swyddogaethau gwybodaeth a thechnoleg gwybodaeth er mwyn cynorthwyo i gyflawni ei ymagwedd ddigidol strategol. |
| A11 | Dylai'r Bwrdd Iechyd ddiweddaru cynlluniau Adfer ar ôl Trychineb TG yn rheolaidd ar ôl cyflwyno newidiadau allweddol i seilwaith a rhwydweithiau TG, a thrwy drefniant rheolaidd, a phrofi cynlluniau i sicrhau eu bod yn effeithiol. |

# Atodiad 1

## Cynnydd wrth weithredu argymhellion blaenorol

Dangosyn 6: statws yr argymhellion blaenorol

| Argymhelliad | | Camau a gymerwyd mewn ymateb i hynny | Cwblhawyd |
|---|---|---|---|
| **argymhellion 2017** | | | |
| A1 | Ar gyfer 2018-19, mae angen i'r Bwrdd Iechyd ddefnyddio gwybodaeth fel data meincnodi i nodi targedau ymestyn fesul achos mewn meysydd lle gellid sicrhau mwy o arbedion. | Mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu newid y sail ar gyfer targedau gwella costau (TGC) ar gyfer 2019-20. | Do. Mae newidiadau wedi'u cynllunio ar gyfer 2019-20. |
| A2 | Er mwyn sicrhau y cydymffurfir â fframwaith cynllunio'r GIG, mae angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod y Pwyllgor Strategaeth ac Ymgysylltu yn craffu'n rheolaidd ar gynnydd wrth gyflawni'r Cynllun Gweithredu Blynyddol, a chynlluniau tymor canolig integredig tair blynedd dilynol. | Mae cynllun gwaith y Pwyllgor SaCh newydd yn cynnwys craffu ar elfennau allweddol y Cynllun Gweithredu Blynyddol, y strategaeth 10 mlynedd a'r rhaglen drawsnewid. Mae angen i'r Pwyllgor a'r Bwrdd barhau i dderbyn diweddariadau priodol ar gynnydd yn erbyn cyflawniadau'r Cynllun Gweithredu Blynyddol i sicrhau eu bod ar y trywydd iawn. | Yn rhannol |
| A3 | Er mwyn gallu craffu'n effeithiol, mae angen i'r Bwrdd Iechyd wella ansawdd ei bapurau i'r | Mae hyd papurau'r Bwrdd ar Pwyllgorau wedi gwella o gymharu â'r llynedd, ond ceir anghysondeb ac amrywio o hyd. Cyflwynodd y Bwrdd Iechyd dempled diwygiedig ar gyfer | Yn rhannol |

| Argymhelliad | Camau a gymerwyd mewn ymateb i hynny | Cwblhawyd |
|---|---|---|
| Bwrdd a'r Pwyllgorau drwy sicrhau bod hyd a chynnwys y papurau a gyflwynir yn briodol ac yn hydrin. | adroddiadau cyflwyno ym mis Medi 2018, a dylai hynny annog adroddiadau mwy cryno. | |
| A4 Er mwyn gwella tryloywder, mae angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod papurau'r Pwyllgor Cyllid ar gael ar ei wefan mewn modd amserol. | Ym mis Rhagfyr 2018, nid oedd papurau Pwyllgor Cyllid Hydref 2018 ar gael ar wefan y Bwrdd Iechyd. | Naddo |
| A5 Mae angen i'r Bwrdd Iechyd gryfhau ei fframwaith sicrwydd risg corfforaethol (FfSRC) drwy:<br>• risgiau wrth fapio ag amcanion strategol y Bwrdd Iechyd;<br>• adolygu'r sicrwydd gofynnol;<br>• gwneud y disgrifiadau risg yn fwy eglur; a rhoi cadarnhad i'r darllenydd o'r dyddiad pan fydd risgiau'n cael eu diweddaru ac/neu eu hychwanegu. | Ychydig o gynnydd y mae'r Bwrdd Iechyd wedi'i wneud o ran uwchraddio'r FfSRC hyd yn ddiweddar. Cyflwynwyd y FfSRC ddiwethaf i'r Bwrdd a'i bwyllgorau ym mis Tachwedd 2017. Rydym yn cydnabod bod y Bwrdd Iechyd wedi cymryd camau yn ddiweddar i ddechrau llunio Fframwaith Sicrwydd Bwrdd a Chofrestr Risg Gorfforaethol ar wahân. Derbyniwyd drafft y FfSB yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio ym mis Tachwedd ac yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Rhagfyr. | Naddo |
| A6 Mae angen i'r Bwrdd Iechyd roi sylw i gryfhau ei drefniadau llywodraethu gwybodaeth yn barod | Cynnydd hyd yma:<br>• Nid oes strategaeth gyfredol ar gyfer Llywodraethu Gwybodaeth eto. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi drafftio ei | Yn rhannol |

| Argymhelliad | Camau a gymerwyd mewn ymateb i hynny | Cwblhawyd |
|---|---|---|
| am y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol, a ddaw i rym ym mis Mai 2018. Dylai hyn gynnwys:<br>• diweddaru'r strategaeth llywodraethu gwybodaeth;<br>• rhoi trefniadau ar waith i fonitro cydymffurfiaeth â'r pecyn cymorth llywodraethu gwybodaeth mewn gofal sylfaenol; a<br>• datblygu a chwblhau Cofrestr Asedau Gwybodaeth;<br>• sicrhau bod swyddog diogelu data wedi'i bennu a'i sefydlu; a<br>• gwella'r defnydd o hyfforddiant llywodraethu gwybodaeth. | ymagwedd strategol yn y Polisi Llywodraethu Gwybodaeth. Mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu cytuno ar yr ymagwedd hon a'i gweithredu'n ddiweddarach yn 2018.<br>• Mae GGGC wedi datblygu'r pecyn cymorth ar gyfer llywodraethu gwybodaeth i feddygon teulu gofal sylfaenol, ac yn bwriadu monitro cydymffurfiaeth ar raddfa clystyrau meddyg teulu. Mae'r trefniadau monitro cydymffurfiaeth hyn yn dal i gael eu datblygu. Mae'r Bwrdd Clinigol Gofal Sylfaenol yn ymgynghori â Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru i gadarnhau a chytuno ar y trefniadau hyn.<br>• Mae cofrestrau asedau gwybodaeth wedi cael eu datblygu o fewn y cyfarwyddiaethau corfforaethol a'r byrddau clinigol, ond mae angen gwneud gwaith pellach i gwblhau hyn yn llawn. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cynllunio gwaith pellach i: nodi'r wybodaeth ariannol a gadwir; nodi llifoedd gwybodaeth; a nodi trefniadau rhannu gwybodaeth.<br>• Mae Swyddog Diogelu Data (SDD) dros dro yn ei swydd, fel sy'n ofynnol o dan y RhDDC. Mae'r Bwrdd Iechyd yn disgwyl penodi rheolwr llywodraethu gwybodaeth profiadol lefel uwch i'r swyddogaeth SDD yn fuan yn 2019.<br>• Mae mwy o staff wedi cwblhau hyfforddiant llywodraethu gwybodaeth. Fodd bynnag, mae'r gyfradd sy'n cydymffurfio â hyfforddiant llywodraethu gwybodaeth (69%) yn llawer is na'r targed cenedlaethol (95%). | |

| Argymhelliad | Camau a gymerwyd mewn ymateb i hynny | Cwblhawyd |
|---|---|---|
| A7 Mae angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod lefel yr wybodaeth a adroddir wrth y Pwyllgor Adnoddau a Chyflawni ar ei berfformiad yn ddigonol er mwyn galluogi'r Pwyllgor i graffu'n effeithiol. Dylai hyn gynnwys:<br>• sicrhau bod y Pwyllgor yn derbyn gwybodaeth fanylach am berfformiad nag a dderbynnir gan y Bwrdd. Dylid ystyried cynnwys crynodeb o ddangosfyrddau'r Byrddau Clinigol a'r Byrddau Gwasanaeth a ddefnyddir yn yr adolygiadau rheoli perfformiad gweithredol misol;<br>• ehangu ystod y metrigau perfformiad i gynnwys ystod ehangach o ddangosyddion perfformiad allweddol yn gysylltiedig â'r gweithlu. Dylid ystyried ailedrych ar y dangosyddion perfformiad allweddol blaenorol ar gyfer y gweithlu, a adroddwyd wrth y Pwyllgor Pobl, Cynllunio a Pherfformiad. | Ar y cyfan, mae'r argymhelliad hwn wedi'i ddatrys yn rhannol.<br>• Mae'r Pwyllgor SaCh yn parhau i dderbyn dangosfwrdd perfformiad lefel uchel, sydd yn llai manwl na'r adroddiad ar berfformiad a dderbynnir gan y Bwrdd.<br>• Ers mis Medi 2018, mae'r Pwyllgor SaCh yn derbyn diweddariadau chwe-misol yn erbyn cynlluniau'r gweithlu, gan gynnwys metrigau allweddol ar gyfer y gweithlu. | Yn rhannol |
| A8 Mae angen i'r Bwrdd Iechyd ailystyried ei Gynllun Amlinellol Strategol ar gyfer Gwybodeg ar sail yr adnoddau ariannol sydd ar gael, a gofyn am gymeradwyaeth y Bwrdd ar gyfer yr ymagwedd strategol ddiwygiedig. | Cymeradwyodd y swyddogion gweithredol yr ymagwedd strategol ar gyfer gwybodeg. Ailystyriodd y Bwrdd Iechyd ei Gynllun Amlinellol Strategol ar gyfer Gwybodeg, a diwygiodd ei ymagwedd at gyflawni yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig sydd heb ei gymeradwyo. | Do |
| A9 Er mwyn sicrhau gwytnwch o ran materion diogelwch, fel seiberddiogelwch, dylai'r | Yn gynnar yn 2018, derbyniodd y Bwrdd Iechyd adolygiad allanol o drefniadau seiberddiogelwch. Argymhellai'r adolygiad | Yn rhannol |

| Argymhelliad | | Camau a gymerwyd mewn ymateb i hynny | Cwblhawyd |
|---|---|---|---|
| | Bwrdd Iechyd ystyried pennu adnoddau penodol i reoli diogelwch TG. | y dylid cyflwyno gwelliannau i drefniadau seiberddiogelwch. Mewn ymateb i hynny mae'r Bwrdd Iechyd yn datblygu cynllun gweithredu ffurfiol er mwyn gwella seiberddiogelwch. Mae'n bwriadu cyflwyno sgiliau seiberddiogelwch arbenigol yn fuan yn 2019 er mwyn ymdrin â'r argymhellion hyn a sefydlu tîm seiberddiogelwch arbenigol. | |
| A10 | Er mwyn gwella'r trefniadau i graffu ar wasanaeth gwybodeg y Bwrdd Iechyd, dylai'r Bwrdd Iechyd ehangu ystod y dangosyddion perfformiad allweddol sy'n gysylltiedig â gwybodeg i gynnwys achos ac effaith digwyddiadau gwybodeg. | Yn fuan yn 2019, mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu cwblhau adolygiad o strwythur a threfniadau llywodraethu ei swyddogaethau gwybodaeth a thechnoleg gwybodaeth er mwyn cyflawni'r strategaeth ddigidol. | Naddo |
| **argymhellion 2016** | | | |
| A13 | Atgyfnerthu'r trefniadau olrhain ar gyfer argymhellion archwilio allanol drwy ddarparu gwybodaeth fanylach i'r Pwyllgor Archwilio ynghylch i ba raddau y mae argymhellion archwilio ariannol a pherfformiad, y naill a'r llall, wedi'u cwblhau, a sicrhau bod pwyllgorau perthnasol y Bwrdd yn monitro pob cynllun gweithredu hyd nes y bo wedi'i gwblhau. | Ceir traciwr i olrhain argymhellion SAC. Nid yw'r trefniadau cyfredol yn creu digon o eglurder ynghylch yr hyn sy'n digwydd i argymhellion y mae pwyllgorau eraill, ar wahân i'r pwyllgor archwilio, yn gyfrifol amdanynt. | Yn rhannol |

# Atodiad 2

## Ymateb y Bwrdd Iechyd i argymhellion eleni

Pan fo'r pwyllgor perthnasol wedi ystyried yr adroddiad hwn, byddwn yn cynnwys fersiwn gryno o ymateb y Bwrdd Iechyd yn yr adroddiad cyn ei gyhoeddi ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru.

Dangosyn 7: ymateb rheolwyr i argymhellion 2018

| Argymhelliad | Ymateb y Rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| **argymhelliad 2017**<br>A1 Dylai'r Bwrdd Iechyd gwblhau ein hargymhellion o asesiad strwythuredig 2017 erbyn diwedd 2019 | Cytunwyd, a bydd y rhain yn cael eu monitro er mwyn sicrhau bod hyn yn digwydd drwy'r Rheolwyr Gweithredol, gan adrodd wrth y Pwyllgor Archwilio. | 31/12/2019 | Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol |
| **Tracio argymhellion archwilio**<br>A2 Dylai'r Bwrdd Iechyd wella'i drefniadau ar gyfer tracio argymhellion drwy: | | | |
| a. mynd i'r afael â'r argymhellion sy'n weddill o asesiad strwythuredig 2016 er mwyn cryfhau'r trefniadau ar gyfer tracio argymhellion archwilio allanol; | Cytunir y bydd hyn yn cael ei gyflwyno gerbron y Pwyllgor Archwilio nesaf | 26/02/2019 | Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol |
| b. gan gynnwys tracio argymhellion archwilio mewnol; a | Cytunwyd yn unol â'r ymateb uchod | 26/02/2019 | Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol |
| c. chwblhau adolygiad o'r holl argymhellion archwilio mewnol ac allanol sy'n weddill ac adrodd y canfyddiadau wrth y Pwyllgor Archwilio. | Cytunwyd yn unol â'r ymateb uchod | 26/02/2019 | Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol |

| Argymhelliad | Ymateb y Rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| **Llywodraethu** | | | |
| A3 Dylai'r Bwrdd Iechyd: | | | |
| a. Diweddaru'r Cynllun Dirprwyo i adlewyrchu'r cyfrifoldeb sydd wedi'i ddirprwyo dros gyfrifo lefelau staffio nyrsys ar gyfer wardiau meddygol a llawfeddygol acíwt i gleifion mewnol; | Cytunwyd, ac ar y gweill yn sgil Adroddiad Archwilio Mewnol | 31/03/2019 | Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol |
| b. Adolygu a diweddaru'r Rheolau Sefydlog a'r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog, gan sicrhau bod y dogfennau hyn yn cael eu hadolygu a'u cymeradwyo'n flynyddol; | Cytunwyd, ac wedi'i amserlennu i'w gyflawni'n flynyddol o hyn allan | 31/03/2019 | Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol |
| c. Gwella fformat y cofrestrau ar gyfer datgan buddiannau a rhoddion, lletygarwch a nawdd a chadarnhau pa mor aml y cyflwynir y cofrestrau gerbron y Pwyllgor Archwilio; | Cytunwyd, bydd fformat cofrestrau'n cael ei wella a'r cynnwys yn cael ei adrodd gerbron y Pwyllgor Archwilio ddwywaith y flwyddyn | 23/04/2019 | Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol |
| d. Sicrhau bod y tîm llywodraethu yn rheoli gwaith i adnewyddu polisïau a dylunio proses er mwyn sicrhau bod adolygiadau polisi yn parhau i fod yn gyfredol; | Cytunwyd | 31/10/2019 | Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol |
| | Cytunwyd, ar y gweill | 31/03/2019<br>31/03/2019 | |
| e. Adolygu cylchoedd gorchwyl yr holl bwyllgorau er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol, na cheir unrhyw orgyffwrdd rhyngddynt a'u bod yn cael eu hadolygu'n flynyddol; a | Cytunwyd, mae cynlluniau gwaith yn cael eu datblygu ar gyfer pob Pwyllgor a'r Bwrdd | | Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol |

| Argymhelliad | Ymateb y Rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| f. Sicrhau bod gan yr holl bwyllgorau raglen waith gyfredol sy'n gysylltiedig â chylch cyfarfodydd y Bwrdd, ac a adolygir yn flynyddol. | | | Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol |
| **Rheoli perfformiad**<br>A4 Dylai'r Bwrdd Iechyd ddiweddaru ei fframwaith rheoli perfformiad i adlewyrchu'r newidiadau trefniadol a gyflwynwyd i'r sefydliad ers 2013. | Rydym yn derbyn y dylid adolygu'r fframwaith rheoli perfformiad er mwyn sicrhau ei fod yn cefnogi busnes y sefydliad yn llawn. | 30/09/209 | Dirprwy Brif Weithredwr/Cyfarwyddwr Trawsnewid |
| **Rheoli ariannol**<br>A5 Dylai'r Bwrdd Iechyd gyflwyno'r newyddion diweddaraf am gynnydd wrth brofi a chyflawni Prosiect Gweithredu System Gostio Cymru Gyfan gerbron y Pwyllgor Cyllid, neu'r Bwrdd. | Mae'r BIP yn derbyn bod angen rhoi diweddariad ar gynnydd y prosiect hwn. Gan fod cyfres o Ffurflenni Costio Cymru (FfCC) wedi cael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru drwy ddefnyddio'r system newydd, gellir bellach roi diweddariad cynhwysfawr ar weithredu'r datblygiad costio a'r defnydd ohono yn y dyfodol. Bwriedir cyflwyno papur gerbron y Pwyllgor Cyllid cyn cwblhau a chyhoeddi FfCC yng Nghymru. | Ebrill 2019 | Y Cyfarwyddwr Cyllid |
| A6 Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod yr holl barau a argymhellir o ymarfer nesaf yr NFI ym mis Ionawr 2019 yn cael eu hadolygu, a bod ymchwiliad prydlon yn cael ei gynnal iddynt lle bo angen. | Ar gyfer ymarfer arfaethedig yr NFI, bydd y Bwrdd Iechyd yn ymdrechu i gynyddu ei gyfradd gydymffurfio o ran nifer y parau a argymhellwyd a gaiff eu gwirio. Fodd bynnag, mae llawer o'r parau yn gysylltiedig â Chyfrifon Taladwy, a bydd angen gwaith paru ac adolygu pellach ar gyfer hyn gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru. Nid oes gan y Bwrdd Iechyd felly reolaeth lawn ar hyn. | Rhagfyr 2019 | Cyfarwyddwr Cyllid |

| Argymhelliad | Ymateb y Rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| **Rheoli Gwybodaeth**<br>A7 Dylai'r Bwrdd Iechyd gwblhau'r camau gweithredu sy'n weddill o adolygiad Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG) o drefniadau diogelu data'r Bwrdd Iechyd yn 2016. | Mae BIP CaF yn ymrwymedig i barhau i leihau'r risgiau o beidio â chydymffurfio. Rydym yn mabwysiadu ymagwedd gwella yn unol â gweddill Cymru, a chan gynnal trafodaeth reolaidd â SCC.<br>Cafwyd cynnydd wrth gofrestru asedau mawr ac o ran llifoedd newydd o wybodaeth. Rydym yn bwriadu bwrw ymlaen i asesu'r llifoedd sylweddol sydd gennym eisoes, gan fabwysiadu ymagwedd sy'n seiliedig ar risg. | 01/06/2019 | Cyfarwyddwr Gwybodaeth Ddigidol ac Iechyd |
| A8 Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau cydymffurfiaeth lawn â'r Gofyniad Diogelu Data Cyffredinol erbyn mis Mai 2019. | Bydd cyflawni cynllun gweithredu cyfredol BIP CaF yn lleihau'r risgiau sydd gennym y gysylltiedig â diffyg cydymffurfio â'r RhDDC.<br>Mae blaenoriaethu risgiau a chamau lliniarol yn rhan o'n cynllun gwella parhaus, sy'n anelu i sicrhau cydymffurfiaeth lawn â'r RhDDC yn ystod 2019. | 31/12/2019 | Cyfarwyddwr Gwybodaeth Ddigidol ac Iechyd |
| A9 Dylai'r Bwrdd Iechyd wella ei amseroedd ymateb i geisiadau am wybodaeth yn sgil y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a Cheisiadau Mynediad Testun Diogelu Data. | Yn ddiweddar, penododd BIP CaF staff ychwanegol, a gafodd effaith gadarnhaol ar amseroedd ymateb i Geisiadau Rhyddid Gwybodaeth a Mynediad Testun. Bydd hyn yn cael i fonitro wrth inni barhau i symud tuag at amseroedd ymateb sydd yn cydymffurfio'n llawn. | 31/03/2019 | Cyfarwyddwr Gwybodaeth Ddigidol ac Iechyd |
| **Technoleg Gwybodaeth**<br>A10 Dylai'r Bwrdd Iechyd gwblhau adolygiad o strwythur a threfniadau llywodraethu ei swyddogaethau gwybodaeth a thechnoleg gwybodaeth er mwyn cynorthwyo i gyflawni ei ymagwedd ddigidol strategol. | Mae'r pennaeth gwybodaeth ddigidol ac iechyd sydd newydd ei benodi yn datblygu strwythur newydd i adlewyrchu gwasanaethau gwybodaeth a TG cyfun, gan anelu i sefydlu swyddogaethau a all roi'r gefnogaeth orau i'r agenda trawsnewid digidol. | 31/03/2019 | Cyfarwyddwr Gwybodaeth Ddigidol ac Iechyd |

| Argymhelliad | | Ymateb y Rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| A11 | Dylai'r Bwrdd Iechyd ddiweddaru cynlluniau Adfer ar ôl Trychineb TG yn rheolaidd ar ôl cyflwyno newidiadau allweddol i seilwaith a rhwydweithiau TG, a thrwy drefniant rheolaidd, a phrofi cynlluniau i sicrhau eu bod yn effeithiol. | Caiff Cynllun Adfer ar ôl Trychineb TG CaF ei adolygu'n flynyddol o leiaf, ac mewn ymateb i amgylchiadau penodol. Cynhelir profion (rhestr wirio a thechnegol), a bydd y system yn cael ei hadfer droeon yn llwyddiannus bob blwyddyn. Mae seilwaith a meddalwedd ychwanegol wedi cael eu sefydlu er mwyn gwella'r broses hon. Mae amserlen o brofion yn cael ei llunio yn rhan o'r cynllun gweithredu technegol. | 31/03/2019 | Cyfarwyddwr Gwybodaeth Ddigidol ac Iechyd |

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales